| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 1 Mawrth 2011 |
| **TEITL** | Y bwriad i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 |
| **PWRPAS** | Mae hwn yn adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013. Mae hyn yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Rhagfyr 2010 y dymunai newid y dyddiad gweithredu gwreiddiol sef 31 Awst 2011. Roedd y newid yn y dyddiad gweithredu yn golygu bod angen cyfnod ymgynghori newydd. |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r Argymhelliad i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwyr Strategol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

Yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2010, ystyriodd Cyngor Gwynedd adroddiad ynghylch cyfnod o ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn ardal dalgylch Tywyn. Yr argymhelliad yr ymgynghorwyd yn ei gylch oedd yn berthnasol i Ysgol Aberdyfi oedd y dylai'r ysgol gau erbyn 31 Awst 2011. Penderfynodd y Cyngor y dylai Ysgol Aberdyfi gau, ond y dylai'r dyddiad gweithredu gael ei newid i 31 Awst 2013 fel y gellid cwblhau gwaith i wella Ysgol Penybryn, Tywyn yn gyntaf.

Roedd y newid i'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i fod â chyfnod ymgynghori newydd. Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddiwygio'r dyddiad gweithredu ar gyfer cau Ysgol Aberdyfi i 31 Awst 2013, a'r ymgynghoriad statudol dilynol a wnaed ar y cynnig newydd yn ystod Ionawr-Chwefror 2011.

Cynhyrchir dadansoddiad o'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn. Cytunwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Statudol y byddai copïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hanfon at yr Aelodau Etholedig drwy eu grwpiau gwleidyddol. Sicrheir bod copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio (yn dilyn golygu gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998) a gellir eu gweld yn Swyddfeydd y Cyngor (yr Adran Addysg) yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a Llyfrgell Tywyn, a bydd y cynghorwyr i gyd hefyd yn derbyn copïau.

Trafodwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wrth gyfarfod ar 24 Chwefror 2011.

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 o gyfarfodydd lle cafodd ystod o dystiolaeth ei thrafod, a chafwyd cyflwyniadau gan y canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- ESTYN / Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cynghrair a Chefnogwyr Ysgolion
- Penaethiaid yn cynrychioli ysgolion bach, canolig a mawr yng Ngwynedd
- Y Gymdeithas Genedlaethol dros Ysgolion Bach

1.3 Yng Ngwanwyn 2009, cyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg o'r Ansawdd Orau i Blant Gwynedd.*

1.4 Cytunwyd bod angen adolygu addysg drwy'r sir yn ôl dalgylch. Gosodwyd camau clir ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Roedd yn cynnwys rhestr o nodau a meini prawf y dylid eu hystyried wrth gynnal yr adolygiadau, gan gynnwys:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Amgylchedd dysgu'r plentyn
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol
- Amgylchiadau eithriadol
- Cylchlythyrau 23/02 a 021/2009

1.6 Datblygwyd ystod o feini prawf penodol yn ymwneud â'r ffactorau a grybwyllwyd uchod. Gan fesur y meini prawf yn erbyn sefyllfaoedd mewn dalgylchoedd unigol, nodwyd Tywyn fel y dalgylch cyntaf i'w adolygu.

1.7 ***Derbyniwyd y strategaeth yn unfrydol gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009.***

## 2. Adolygiad Dalgylch Tywyn

### *2.1 Dulliau Cyfathrebu*

2.1.1 Sefydlwyd nifer o fforymau i ofyn am farn wrth i'r Daliwr Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, ac roedd y fforymau hyn yn cynnwys:

- Panel Adolygu Dalgylch
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn i blant a phobl ifanc
- Cyfathrebu ehangach

- Panel Ymgynghorol Sirol

2.1.2 Sicrhawyd hefyd bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i bawb a fynegodd ddiddordeb.

2.2 ***Panel Adolygu Dalgylch Tywyn***

2.2.1 Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch Tywyn yn ystod Gwanwyn 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 21 Mai 2009. Cynhaliwyd 4 cyfarfod arall ar 18 Mehefin, 6 Gorffennaf, 10 Medi a 24 Medi 2009.

***2.2.2*** Estynnwyd gwahoddiad i ddirprwyaeth – pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr, a rhiant lywodraethwr – o bob un o'r wyth ysgol gynradd yn y dalgylch. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i bennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn a'r 6 o gynghorwyr lleol. ***Mynychwyd 5 cyfarfod gan 32 o aelodau parhaol oedd yn cynrychioli'r dalgylch.***

2.2.3 Derbyniodd a thrafododd y Panel ystod o dystiolaeth, gan gynnwys pecyn o ystadegau am yr ardal y cytunwyd arno gan y Panel cyfan fel adlewyrchiad llawn a theg. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr yr ysgolion gyflwyno eu sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn. Ar ddiwedd ail gyfarfod Panel Adolygu'r Dalgylch a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2009, ***cytunodd aelodau Panel Adolygu'r Dalgylch fod yr wybodaeth ystadegol a gyflwynwyd yn adlewyrchu'r sefyllfa o fewn y dalgylch yn llawn ac yn gywir, ac yr ymatebwyd yn llawn i geisiadau pellach a dderbyniwyd o'r dalgylch.***

2.2.4 Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd ynghylch y canlynol:
- y cyd-destun ariannol
- gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol gan gynnwys canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol am sefydlu patrymau o gydweithredu rhwng ysgolion

2.2.5 Cyflwynodd y panel 9 o ddewisiadau unigol posibl ar gyfer ad-drefnu ysgolion yr ardal yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2009. Ychwanegodd y Panel Ymgynghorol Sirol 4 dewis arall (gweler isod). Derbyniwyd dadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob cynnig yng nghyfarfod y Panel a gynhaliwyd rhwng 6 Gorffennaf 2009, a chynhaliwyd trafodaeth fanwl ynghylch manteision ac anfanteision y dewisiadau yng nghyfarfodydd Panel Adolygu'r Dalgylch a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf a 10 Medi 2009. Rhestrir y dewisiadau isod:
- dim newid
- cydweithredu rhwng ysgolion Penybryn (Tywyn) ac Aberdyfi
- sefydlu Ysgol Aberdyfi fel canolfan y Cyfnod Sylfaen ar gyfer cymunedau Tywyn ac Aberdyfi, gydag Ysgol Penybryn yn darparu addysg Cyfnod Allweddol 2

- cydweithrediad rhwng ysgolion Aberdyfi, Pennal a Dyffryn Dulas (Corris)
- cydweithrediad rhwng ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas (Corris)
- cydweithrediad rhwng ysgolion Bryncrug, Abergynolwyn, Llwyngwril a Llanegryn
- ysgol ardal newydd i wasanaethu cymunedau Bryncrug, Abergynolwyn, Llwyngwril a Llanegryn
- cydweithrediad rhwng ysgolion Llwyngwril a'r Friog
- sefydlu 3 ysgol ffederal yn y dalgylch gyda'r gweddill yn parhau fel ysgolion cyfnod sylfaen
- cau ysgolion Llwyngwril, Llanegryn ac Abergynolwyn ac addasu'r safle ym Mryncrug i dderbyn disgyblion o'r tair ysgol
- cau Ysgol Aberdyfi a chynnig lle i blant o'r dalgylch yn Ysgol Tywyn
- sefydlu ysgol gynradd i blant (3-11 oed) ar gyfer y dalgylch yn Nhywyn, gan gau pob ysgol gynradd ac eithrio Dyffryn Dulas (Corris)
- sefydlu ysgol gydol oes (3-16 oed) ar gyfer y dalgylch yn Nhywyn, gan gau pob ysgol gynradd arall ac eithrio Dyffryn Dulas (Corris).

### *2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol*

2.3.1 Ymwelodd Daliwr y Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol (Cyng. Seimon Glyn) â phob ysgol yn y dalgylch ar ddechrau'r broses. Pwrpas yr ymweliad oedd cyfarfod â phenaethiaid ac arsylwi a dysgu am sefyllfaoedd ysgolion unigol.

2.3.2 Yn dilyn cyfarfod cyntaf Panel Adolygu'r Dalgylch, cytunodd y 6 cynghorydd lleol yn y dalgylch y dylent nhw hefyd ymweld â phob ysgol. Gwnaed hyn cyn ail gyfarfod Panel Adolygu'r Dalgylch.

2.3.3 Cynhaliwyd dau gylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, rhwng 1-5 Mehefin 2009 ac 14-21 Medi 2009. Cyfyngwyd y cylch cyntaf i staff a chadeirydd y llywodraethwyr, a derbyniodd staff, llywodraethwyr a rhieni wahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd ar wahân yn ystod yr ail gylch.

2.3.4 ***Felly, cynhaliwyd 32 o gyfarfodydd dros 12 diwrnod llawn gyda chynrychiolwyr o ysgolion unigol, yn ogystal ag ymweliad gan y Daliwr Portffolio a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol.***

2.3.5 Cynhaliwyd yr ail gylch o gyfarfodydd rhwng 14-21 Medi 2009, a rhoddodd hwn gyfle i'r ysgolion dderbyn gwybodaeth am drafodaethau Panel Adolygu'r Dalgylch ac awgrymu syniadau ynghylch y dewisiadau unigol a'r modelau o dan ystyriaeth ar gyfer y dalgylch.

## 2.4 ***Plant a phobl ifanc***

2.4.1 Yn ystod cyfarfod cyntaf Panel Adolygu'r Dalgylch a gynhaliwyd ar 21 Mai 2009, awgrymwyd y dylid gofyn am farn plant a phobl ifanc wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Cytunwyd ar hyn gan gynrychiolwyr pob ysgol ym Mhanel Adolygu'r Dalgylch.

2.4.2 Ar ddechrau Medi 2009, felly, hysbyswyd ysgolion unigol y cynhelid y sesiwn i blant a phobl ifanc yn Ysgol Uwchradd Tywyn ar 14 Medi 2009. Gofynnwyd i ysgolion drefnu dirprwyaeth o aelodau Cyngor yr Ysgol a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 plentyn o bob ysgol.

2.4.3 Gwahoddwyd pennaeth pob ysgol i fynd gyda'r plant wrth deithio i'r sesiwn ac anfonwyd rhaglen o'r gweithgareddau a'r cwestiynau y bwriedid eu gofyn i'r plant a'r bobl ifanc at y pennaeth. Cafodd y penaethiaid gyfle i ofyn cwestiynau am y trefniadau ac awgrymu newidiadau. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach gan y penaethiaid cyn y sesiwn.

2.4.4 Hwyluswyd y sesiwn ar 14 Medi 2009 gan swyddogion arbenigol y Cyngor.

2.4.5 Cynhaliwyd ystod o weithgareddau i ganfod barn y plant a'r bobl ifanc am nifer o bynciau gan gynnwys:
- Maint y dosbarthiadau
- Ystod oed o fewn dosbarth
- Cyfrwng iaith y plant y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Pellter teithio i'r ysgol

2.4.6 Wrth gloi'r sesiwn, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc awgrymu'r math o gyfleusterau yr hoffent eu gweld mewn ysgol.

2.4.7 Cynhyrchwyd adroddiad llawn 13 tudalen ynghylch y sesiwn. Yn gyffredinol, roedd y plant yn dangos teyrngarwch i'w hysgolion a'u hathrawon a hefyd yn nodi nifer o adnoddau yr hoffent eu gweld yn eu hysgolion. Dosbarthwyd yr adroddiad gyda phapurau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 8 Hydref ac unwaith eto gyda phapurau Bwrdd y Cyngor ar 3 Tachwedd 2009.

## ***2.5 Y Panel Ymgynghorol Sirol***

**2.5.1** Wrth gymeradwyo'r strategaeth yn unfrydol, awdurdododd y Cyngor aelodau'r Gweithgor Gwella i barhau fel fforwm i gefnogi Daliwr y Portffolio Addysg wrth iddi hi arwain adolygiadau trwy'r dalgylchoedd. Gwnaed hyn gan ddefnyddio'r teitl y *Panel Ymgynghorol Sirol.* ***Gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob grŵp ar Gyngor Gwynedd.***

2.5.2 Cynhaliwyd pedwar o gyfarfodydd y Panel Ymgynghorol Sirol i drafod datblygiadau yn Nhywyn ar 22 Ebrill, 24 Mehefin, 1 Medi ac 14 Medi 2009.

2.5.3 Awgrymodd y Panel nifer o ddewisiadau ar gyfer ad-drefnu ysgolion yr ardal, ynghyd â dadansoddiad o fodelau a argymhellwyd gan Banel Adolygu'r Dalgylch.

2.5.4 Cynrychiolwyd pob grŵp gwleidyddol ar y Panel Sirol. Ymddiswyddodd un aelod o'r panel cyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2009.

2.5.5 ***Cymeradwyodd mwyafrif aelodau'r Panel Ymgynghorol Sirol argymhellion yr Arweinydd Portffolio.***

2.6 ***Gohebiaeth ysgrifenedig***

2.6.1 ***Paratowyd pedair newyddlen i'w dosbarthu i bob ysgol yn dilyn pob cyfarfod ac eithrio ar gyfer un o gyfarfodydd Panel Adolygu'r Dalgylch. Anfonwyd copïau caled i'r ysgolion i'w dosbarthu i bob rhiant. E-bostiwyd y newyddlen i bob ysgol a chyhoeddwyd y newyddlenni ar wefan y Cyngor. Roedd y bedwaredd newyddlen yn crynhoi'r argymhellion a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor.***

2.6.2 Cyhoeddwyd holl bapurau Panel Adolygu'r Dalgylch ar wefan y Cyngor.

2.6.3 Darparwyd manylion cyswllt y swyddogion hynny oedd yn ymwneud â'r gwaith, ar y wefan.

2.6.4 ***Cadarnheir felly nad yw'r gweithgareddau a wnaed wrth lunio'r cynigion hyn yn rhan o broses adolygu'r ddarpariaeth statudol yn ardal dalgylch Tywyn. Mae'r trafodaethau hyd yma yn ychwanegol at yr hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth y Cynulliad.***

## 3. Argymhellion Dalgylch Tywyn

3.1 Ar 24 Medi 2009, cyflwynodd y Daliwr Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Tywyn i Banel Adolygu'r Dalgylch, sef:

- ***Ysgol ardal newydd yn nalgylch Bryncrug neu Llanegryn*** i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2013-14. Mae hyn yn cynnwys ***cau ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn*** cyn gynted ag y bydd yr ysgol newydd yn barod. Oherwydd y pryder a godwyd gan rai ysgolion am y cyfnod rhwng cyhoeddi'r cynigion a dyddiad agor yr ysgol newydd, rhoddwyd ymrwymiad y byddai'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion barhau ar agor yn y cyfamser. Ond pe bai amgylchiadau eithriadol – e.e. niferoedd eithriadol o isel o ddisgyblion, anawsterau o ran recriwtio penaethiaid a staff – yn codi yn y cyfamser, bydd angen i'r Cyngor gynnal trafodaethau gyda'r ysgolion penodol.
- ***Cau Ysgol Aberdyfi erbyn Medi 2001,*** gan gynnig lle i blant o fewn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn

- ***Hyrwyddo cydweithrediad rhwng ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas (Corris).***

3.2 Cyflwynwyd y rhesymeg am y cynigion yn llawn yn y papur a gyflwynwyd i'r Cyngor yn Rhagfyr 2009. Roedd y cynigion yn rhoi ystyriaeth i feini prawf a nodwyd gan strategaeth *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a gofynion Llywodraeth y Cynulliad a gynhwysir yng Nghylchlythyrau 23/02 a 021/2009.

3.3 Cymeradwywyd y cynigion gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (8 Hydref 2009), Bwrdd y Cyngor (3 Tachwedd 2009) a'r Cyngor llawn (10 Rhagfyr 2009) fel sail ar gyfer ymgynghori ffurfiol.

## 4. Yr Ymgynghoriad Statudol – Haf 2010

4.1 Yn unol â gofynion statudol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, aeth Cyngor Gwynedd ati i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion gyda chyfranddeiliaid perthnasol o 7 Mehefin 2010.

4.2 Cyn dechrau'r ymgynghori statudol, cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol gyda llywodraethwyr ysgolion perthnasol yn ystod yr wythnos 17 Mai 2010.

4.3 Paratowyd a dosbarthwyd papur Ymgynghoriad Statudol i grwpiau perthnasol y dylid ymgynghori â nhw yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Ysgolion Abergynolwyn, Aberdyfi, Bryncrug, Llanegryn, Llwyngwril a Phenybryn yn ystod yr wythnos 24 Mai 2010. Wrth i fwy o wybodaeth ddod i law ynghylch safleoedd posibl ar gyfer yr ysgol ardal newydd arfaethedig ym Mro Dysynni, rhyddhawyd dogfennau pellach i'r rhai y bwriedid ymgynghori â nhw ar 14 Gorffennaf 2010. Ymestynnwyd y dyddiad ar gyfer cau'r cyfnod ymgynghori bythefnos felly i 13 Awst 2010.

4.4 Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori statudol gyda staff a llywodraethwyr ac ar gais yr ysgol cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd i rieni ac aelodau'r gymuned yn Ysgol Aberdyfi ym Mehefin 2010. Cymerwyd cofnodion y cyfarfodydd hyn gan swyddogion y Cyngor ac fe'u dosbarthwyd i'r ysgolion perthnasol. Atodir y rhain yn Atodiad 2.

4.5 Cytunwyd yn ystod y cyfarfodydd Ymgynghori Statudol y dylid darparu cofnodion o'r cyfarfodydd a chopïau o'r ymatebion ysgrifenedig i'r Aelodau Etholedig drwy eu grwpiau gwleidyddol. Mae cylchlythyr perthnasol y Llywodraeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gael cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Cynigiodd y Cyngor ddwy ffordd i'r ysgolion gyflawni hyn – naill ai drwy anfon swyddogion priodol i siarad â disgyblion neu drwy baratoi dogfen o ymarferiad ysgrifenedig i'w chwblhau gan y plant o dan gyfarwyddyd eu hathro. Atodir dadansoddiad o'r ymatebion yn Atodiad 4.

4.6 Erbyn 13 Awst 2010, derbyniwyd 35 o ymatebion i gyd am gynnig Aberdyfi.

**5. Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr Ymgynghoriad Statudol cyntaf**

5.1 Gwnaed dadansoddiad o'r holl ymatebion ac adroddiad meintiol o'r sylwadau a dderbyniwyd. Atodir ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny yn Atodiad B.

**6. Penderfyniad y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010**

6.1 Ystyriodd y Cyngor yr ymatebion i'r cynnig i gau Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011 a phenderfynodd wneud y canlynol:

- **g**ymeradwyo ymgymeryd a phroses ymgynghori ar y bwriad diwygiedig i gau Ysgol Aberdyfi yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14, 31 Awst 2013 gyda'r nod o gau'r ysgol unwaith mae'r gwelliannau i Ysgol Penbryn wedi eu cwblhau;

6.2 Golygai penderfyniad y Cyngor fod yn rhaid cynnal cyfnod ymgynghori newydd ynghylch y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013.

**7. Yr Ymgynghoriad Statudol – Ionawr-Chwefror 2011**

7.1 Yn unol â gofynion statudol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, addawodd Cyngor Gwynedd gynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 gyda chyfranddeiliaid perthnasol o 17 Ionawr i 14 Chwefror 2011.

7.2 Paratowyd a dosbarthwyd papur Ymgynghoriad Statudol i'r ymgynghorai perthnasol yn Aberdyfi yn ystod wythnos 10 Ionawr 2011.

7.3 Ar gais yr ysgol, cynhaliwyd un cyfarfod ymgynghori statudol i staff, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau'r gymuned yn Ysgol Aberdyfi ar noson 1 Chwefror 2011. Cymerwyd cofnodion y cyfarfodydd hyn gan swyddogion y Cyngor ac fe'u hanfonwyd i Ysgol Aberdyfi gan ofyn am sylwadau. Atodir y rhain yn Atodiad 2.

7.4 Cytunwyd yn ystod y cyfarfod y byddai cofnodion y cyfarfodydd a chopïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hanfon at yr holl Aelodau Etholedig.

7.5 Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori statudol ar 14 Chwefror 2011, roedd 16 o ymatebion i gyd wedi'u derbyn am y cynnig ynghylch Aberdyfi.

7.6 Sicrhawyd bod copïau o'r holl ymatebion – i'r ymgynghoriad cyntaf yn ystod Haf 2010 a'r ymgynghoriad newydd ym mis Ionawr a Chwefror 2011 -ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio (wedi gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998).

Gellir gweld y rhain yn Swyddfeydd y Cyngor (yr Adran Addysg) yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a Llyfrgell Tywyn. Cyhoeddwyd sylwadau hefyd ar wefan y Cyngor, a chyflwynwyd copïau unigol i'r Cynghorwyr i gyd.

7.7 Fel y nodwyd uchod, nododd papur yr Ymgynghoriad Statudol a gyhoeddwyd yn Ionawr 2011 y byddai'r holl ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Statudol cyntaf yn ystod Haf 2010 yn cael ei chynnwys fel ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r adran ganlynol felly yn amlinellu sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori ac ymateb y Cyngor.

## 8. Ysgol Aberdyfi

8.1 Mae Ysgol Aberdyfi yn darparu addysg i 23 o ddisgyblion 3-11 oed. Y cynnig o dan ystyriaeth yw cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013.

8.2 Roedd yr ymatebion ysgrifenedig a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfarfod statudol Ysgol Aberdyfi yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a amlinellir isod:

- materion cymunedol
- materion addysgol
- ansawdd a chynaliadwyedd adeiladau'r ysgol
- cywirdeb gwybodaeth a ddarparwyd cyn ac yn ystod y broses ymgynghori
- trafnidiaeth
- cyllid
- yr Iaith Gymraeg
- beirniadaeth o ymddygiad y Cyngor yn ystod y trafodaethau lleol
- yr effaith bosibl ar grwpiau meithrin lleol

8.3 Cynhwysir ymatebion manwl i'r pwyntiau a godwyd yn yr atodiadau i'r adroddiadau hyn. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn teimlo y dylid symud ymlaen gyda'r cynnig gwreiddiol.

### *8.4 Safonau addysgol*

8.4.1 Mae Ysgol Penybryn yn ysgol dda iawn a dderbyniodd bum Gradd 1 a dwy Radd 2 mewn arolwg ESTYN ym Mai 2010. Derbyniodd Ysgol Aberdyfi arolwg llawn ddiwethaf yn 2005 a ganfu fod gan yr ysgol wendidau difrifol. Canfu dau ail arolwg - yn 2006 ac eto yn 2007 - y gwnaed rhywfaint o gynnydd ond bod llawer o wendidau pwysig yn parhau. Arolygir Ysgol Aberdyfi yn ystod y flwyddyn nesaf.

8.4.2 Mae'r cynnig yn bwriadu addasu a diweddaru adeiladau Ysgol Penybryn i'w gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd cyfran o'r cyfalaf a sicrheir ar gyfer prosiect Tywyn - £1.2 miliwn – yn cael ei wario ar

Ysgol Penybryn, Tywyn. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd uwchraddio'r adeilad gyda chyfleusterau modern yn gwella'r addysg a gyflenwir yn Ysgol Penybryn.

8.4.3 I ddisgyblion Aberdyfi, bydd sefydlu dosbarthiadau mwy a chadarnach, a mynediad at gronfa fwy o staff addysgu a staff cymorth yn cynnal ac yn gwella safonau addysgol. Dylai'r cynnig helpu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

8.4.4 Maint y dosbarthiadau yn Aberdyfi ar hyn o bryd yw 11.5. Mae meintiau'r dosbarthiadau yn Ysgol Penybryn ar hyn o bryd ar gyfartaledd ychydig o dan 25, er bod rhai amrywiadau. Noda'r strategaeth y dylid anelu at sicrhau dosbarthiadau o rhwng 12-25 o ddisgyblion. Drwy gau Ysgol Aberdyfi a throsglwyddo disgyblion y dalgylch i Ysgol Penybryn, rhagwelir y bydd digon o gyllid ychwanegol i ddilyn y disgyblion i gynnal 1.5 athro neu athro a chymhorthydd.

8.4.5 Byddai cau'r ysgol a symud y plant i Ysgol Penybryn yn cynnwys darparu cyfleoedd i blant yn Aberdyfi ddysgu mewn grwpiau mwy gyda'u cyfoedion.

8.4.6 Mae arweinyddiaeth yn allweddol i wella safonau addysgol. Awgrymodd profiadau diweddar yn yr ardal ei bod yn dod yn fwy a mwy anodd canfod ymgeiswyr cymwys ac addas ar gyfer swyddi penaethiaid, ac arweiniwyd Ysgol Aberdyfi gan benaethiaid dros dro am nifer o flynyddoedd. Mae Ysgol Penybryn wedi penodi pennaeth parhaol newydd yn ddiweddar.

8.5 **Trafnidiaeth**

8.5.1 Noda Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd ei nod o sicrhau nad yw disgyblion yn teithio mwy na 30 munud un ffordd i'r ysgol. Mae traean o'r disgyblion cynradd sy'n byw yn Aberdyfi eisoes yn mynychu Ysgol Penybryn. Byddai'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi a darparu llefydd ar gyfer disgyblion sy'n byw yn Aberdyfi yn Ysgol Penybryn yn ei gwneud yn ofynnol i oddeutu 23 o ddisgyblion deithio 4 milltir ychwanegol i Dywyn. Dylai'r amserau teithio felly gyrraedd y targed. Os gweithredir y cynnig, byddai gan yr holl ddisgyblion sy'n byw yn Aberdyfi hawl i drafnidiaeth am ddim i Ysgol Penybryn yn unol â pholisi trafnidiaeth ysgol y Sir.

8.5.2 Gwasanaethir Aberdyfi gan gysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus da, gan gynnwys bysiau cyhoeddus a threnau. Mae'r ffordd o Aberdyfi o ansawdd da.

8.5.3 Nid yw Cyngor Gwynedd yn darparu arolygaeth gan oedolion ar hyn o bryd, heblaw'r gyrrwr, ar fysiau ysgol. Ond cynigiodd y Cyngor ddarparu

arolygaeth gan oedolion ar fysiau sy'n cludo disgyblion o Aberdyfi i Ysgol Penybryn, Tywyn, ac adolygu'r trefniant ar ôl y tymor cyntaf.

8.5.4 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch pa mor briodol oedd y mannau i godi a gollwng y disgyblion y tu allan i Ysgol Penybryn, Tywyn. Defnyddir cyfran o'r cyfalaf a glustnodwyd ar gyfer Ysgol Penybryn i ymdrin â'r mater hwn.

8.5.5 Mae'r cynnig i ganiatáu i Ysgol Penybryn, Tywyn agor dosbarth meithrin yn destun rhybuddion statudol ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig, bydd Ysgol Penybryn yn gallu darparu addysg feithrin. Bydd llefydd ar gael i blant o ddalgylch Aberdyfi yn unol â'r polisi cyfredol. Er na ddarperir trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion o oed meithrin, bydd rhieni yn gallu prynu llefydd ar drafnidiaeth a ddarperir gan y Cyngor, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

**8.6 Adeiladau**

8.6.1 Mae Ysgol Aberdyfi mewn cyflwr da. Ond, amcangyfrifa'r Cynllun Rheoli Asedau fod ôl-groniad o £37,000 ar waith cynnal, fod angen gwario £9,500 ar ragofalon tân, a £57,000 i wneud yr adeilad yn addas ar gyfer pwrpas. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau felly yn rhagfynegi bod angen gwario dros £100,000 ar adnewyddu ac addasu adeilad yr ysgol. Mae Ysgol Penybryn hefyd mewn cyflwr da. Mae yno ôl-groniad o £44,500 ar waith cynnal; mae angen gwario £9,500 ar ragofalon tân a £95,000 i wneud yr adeilad yn addas ar gyfer pwrpas. Mae angen gwariant sylweddol hefyd ar fodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd o oddeutu £77,953. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o ofynion gwariant o oddeutu £225,000.

8.6.2 Noda rhaglen gyfalaf y Llywodraeth i gefnogi datblygu *Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain* yr awydd i ddatblygu ysgolion cymunedol sy'n bodloni gofynion y ganrif hon. Ymgeisiodd Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus am gyfalaf i gefnogi adeiladu ysgol newydd ac i uwchraddio tair ysgol gynradd arall gan gynnwys Ysgol Penybryn. Mae'r cyllid cyfalaf i wireddu'r cynnig hwn felly yn ei le yn barod yn ddarostyngedig i gwblhau'r brosesau statudol.

8.6.3 Argymhellodd y cais llwyddiannus am Gyllid Cyfalaf Cyfran 3 ar gyfer ardal Tywyn y dylid uwchraddio ansawdd ac addasrwydd adeiladau yn Ysgol Penybryn. Rhoddir ystyriaeth lawn a phriodol wrth gwrs i faterion yn ymwneud â hygyrchedd yn y broses ddylunio.

8.6.4 Mae argaeledd cyllid cyfalaf i wella Ysgol Penybryn yn dibynnu ar weithredu'r cynigion yn llawn ar gyfer dalgylch cyfan Tywyn.

**8.7 Lleoedd**

8.7.1 Mae niferoedd y disgyblion yn y ddwy ysgol wedi gostwng o 27% rhwng 1975 a 2010. Mae poblogaeth Ysgol Aberdyfi wedi gostwng o 66 i 23 yn

ystod y cyfnod hwn, sy'n cynrychioli gostyngiad o bron i 70%, tra bo poblogaeth Ysgol Penybryn wedi gostwng o 248 i 209 (16%). Mae Ysgol Aberdyfi yn rhagweld y bydd cynnydd yn niferoedd y disgyblion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i oddeutu 25 disgybl. Mae Ysgol Penybryn yn rhagweld y bydd cynnydd bychan i oddeutu 210.

8.7.2 Mae oddeutu 30 o ddisgyblion oed cynradd yn byw ar hyn o bryd yn Aberdyfi ac oddeutu 181 yn Nhywyn. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion sy'n byw yn y ddau ddalgylch yn derbyn eu haddysg ar hyn o bryd yn un o'r ddwy ysgol.

8.7.3 Mae 75% o leoedd yn Ysgol Aberdyfi a 35% o leoedd yn Ysgol Penybryn, yn wag. Wedi i'r cynnig gael ei weithredu, byddai lleoedd gwag yn Ysgol Penybryn yn gostwng i oddeutu 27%. Canllawiau'r Llywodraeth yw bod 'nifer sylweddol' o leoedd gwag pan fo mwy na 25% a mwy na 30 o leoedd gwag (dangosydd cenedlaethol); a'r argymhelliad yw y dylid anelu at sicrhau nad oes mwy na 10% o leoedd yn wag. Ond mae'r cynnig hefyd yn rhagweld caniatáu i Ysgol Penybryn greu dosbarth meithrin. Pe bai hyn yn digwydd, gellid cwtogi ar y lleoedd dros ben i oddeutu 20%.

## 8.8 Cyllid

8.8.1 Mae Ysgol Aberdyfi yn dod o fewn polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio'r Adran Addysg. Gwariodd y Sir £416,300 yn ystod 2009-10 i gynnal isafswm o bennaeth ac athro ym mhob ysgol sydd â llai na 15 o ddisgyblion a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgol gyda llai na 15 o ddisgyblion. Mae £90,184 o hyn yn Nalgylch Tywyn, £22,212 yn Ysgol Aberdyfi. Ni weithredir y polisi gwarchodaeth rhag gostwng staff yn Ysgol Penybryn.

8.8.2 Dyraniad Ysgol Aberdyfi yn 2009-10 oedd £128,803. Os bydd yr ysgol yn cael ei chau, rhagwelir y bydd hyd at £56,360 yn dilyn disgyblion yr ysgol i Ysgol Penybryn. Rhagwelir y bydd costau trafnidiaeth blynyddol ychwanegol o oddeutu £15,000 a fyddai'n rhyddhau arbediad o £57,443 yn ôl i'r Adran Addysg i'w ddyrannu i ysgolion eraill.

8.8.3 Bydd yr arbedion a wireddir wrth gau'r pedair ysgol yn cael eu cadw o fewn y gyllideb Addysg. Gwnaed ymrwymiad arall y bydd 20% o'r arbedion yn aros o fewn y dalgylch am hyd y broses adolygu ar draws y sir.

## 8.9 Effaith gymunedol

8.9.1 Addysgir oddeutu 40% o boblogaeth oed cynradd Aberdyfi ar hyn o bryd mewn mannau eraill, yn bennaf yn Nhywyn.

8.9.2 Darperir crynodeb o'r cyfleusterau cymunedol a'r defnydd cymunedol a wneir o gyfleusterau'r ysgolion yn y dadansoddiad ystadegol a gytunwyd

gan bob ysgol. Mae gwybodaeth am y ffactorau hynny a ystyriwyd mewn dadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar gael ar wefan y Cyngor. Mae gan Aberdyfi nifer o gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys neuadd bentref, siopau, tafarnau a gwestai. Ychydig o ddefnydd a wneir o adeilad yr ysgol gan y gymuned, er bod disgyblion yn cyfrannu at ddigwyddiadau cymunedol.

8.9.3 Noda Cylchlythyr Argymhellion Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 fod yn rhaid i gyrff sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion ystyried materion cymunedol wrth ffurfio cynigion.

8.9.4 Cyflawnwyd Asesiad Effaith Cymunedol llawn ac annibynnol ar y cynigion (sydd ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor). Canfu'r asesiad y byddai cau Ysgol Aberdyfi a darparu llefydd yn Ysgol Penybryn yn cael effaith niwtral ar y gymuned a hynny'n rhannol oherwydd nifer y busnesau sy'n gweithredu o fewn y pentref. Ond mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion a allai liniaru effaith negyddol cau ysgolion. Bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu llawer o'r rhain, gan gynnwys cefnogi cymunedau i gynhyrchu cynlluniau busnes ar gyfer prynu adeilad yr ysgol i ddibenion cymunedol ac i roi cyngor i fusnesau lleol. Bydd swyddogion adfywio lleol yr ardal ar gael i gynorthwyo cymunedau yn hyn o beth.

## 8.10 Effaith ar Iaith

8.10.1 Mae Cylchlythyr Cynigion Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 hefyd yn nodi bod yn rhaid i gyrff sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion ystyried effaith bosibl ad-drefnu ar yr iaith Gymraeg wrth lunio cynigion.

8.10.2 Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Iaith llawn ac annibynnol hefyd ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Canfu'r asesiad fod y cynnig hwn yn cynnig cyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg o fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn yr ardal, ac y byddai hyn yn cael effaith niwtral ar Aberdyfi. Cyflawnwyd darn o waith ar wahân ar y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd, gyda rhywfaint o waith peilot yn ardal Tywyn.

8.10.3 Byddai darparu addysg feithrin i'r holl blant 3 mlwydd oed sy'n byw yn Nhywyn ac Aberdyfi yn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

## 8.11 Effaith ar Gydraddoldeb

8.11.1 Cyflawnwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynigion. Canfuwyd na ellid disgwyl unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol o'r cynnig ar brofiadau addysgol plant sy'n byw yn Aberdyfi. Ond efallai y bydd effaith ar y ddau grwp meithrin sy'n gweithredu yn nhref Tywyn ar hyn o bryd.

## 8.12 Ystyried dewisiadau eraill

8.12.1 Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n gwneud y cynigion roi ystyriaeth addas i gynigion eraill. Roedd dewisiadau a ystyriwyd yn ystod y broses adolygu yn cynnwys:

- Ffederaleiddio Ysgol Aberdyfi gydag Ysgol Pennal ac o bosibl hefyd Ysgol Dyffryn Dulas, Corris
- Cau saith o'r wyth ysgol yn ardal y dalgylch a chreu ysgol ardal newydd yn nhref Tywyn.
- Ffederaleiddio Ysgol Aberdyfi gydag Ysgol Penybryn, Tywyn.

8.12.2 Mae llywodraethwyr Ysgol Aberdyfi wedi trafod y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag Ysgol Pennal gyda llywodraethwyr Ysgol Pennal. Er y sicrhawyd nhw nad oedd gan Ysgol Pennal unrhyw wrthwynebiad i weithio gydag Ysgol Aberdyfi, nododd y llywodraethwyr eu bod wedi dechrau ar ddatblygu model cydweithredol gydag Ysgol Dyffryn Dulas, Corris. Mae'r model hwn yn datblygu'n dda gyda chymorth swyddogion Cyngor Gwynedd ac ymgynghorwyr CLlLC (WLGA).

8.12.3 Ystyriai'r Cyngor mai'r dewis a oedd yn ymddangos fel pe bai'n bodloni ei ofynion fel yr amlinellwyd yn ei strategaeth *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 oedd y dewis a ffafrid, ac ar y sail honno dechreuodd ymgynghoriad statudol.

8.12.4 Cefnogwyd y cynigion llawn ar gyfer ardal Tywyn drwy ddyrannu cyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ddarostyngedig i gwblhau'r cyfnod statudol.

## 8.13 Cywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd a chynnal y cyfnod statudol

8.13.1 Cytunwyd ar yr wybodaeth ystadegol a gyhoeddwyd yn y papur ymgynghori statudol gan gynrychiolwyr yr holl ysgolion yng nghyfarfodydd Panel Adolygu'r Dalgylch.

8.13.2 Cynhaliwyd y cyfnod statudol yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8.13.3 Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith economaidd ar wahân yn nalgylch Tywyn. Nid yw asesiadau effaith economaidd yn ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 9. Crynodeb o'r cynigion

9.1 Crybwyllir y rhesymeg ar gyfer y cynigion isod. Gwneir yr argymhellion hyn wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* strategy a gofynion Cylchlythyr 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion.

9.2 Mae'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi yn rhan o gynnig ehangach i ailstrwythuro addysg yn nalgylch Tywyn. Mae effeithiolrwydd y cynigion yn dibynnu ar eu gweithredu'n llawn. Nodir isod, felly, restr o ffeithiau a dangosyddion sy'n amlinellu'r rhesymeg dros y cynigion ar gyfer dalgylch cyfan Tywyn.

9.3 Drwy'r trefniadau newydd, bydd yr holl blant yn y dalgylch yn derbyn cyfle cyfartal i gael eu haddysgu mewn grwpiau o faint rhesymol yn ogystal â chyfleoedd i weithio a chwarae gyda'i gilydd mewn grwpiau o gyfoedion yn fwy rheolaidd.

9.4 Bydd angen llai o benaethiaid yn y dalgylch a bydd athrawon yn cael cyfle i rannu amrywiol arbenigeddau a chynnig yr arbenigedd hwnnw i'r disgyblion. Bydd yr ystod oed o fewn dosbarthiadau yn llai a bydd hyn felly yn hwyluso cynllunio ac addysgu gan yr athrawon.

9.5 Mae'r cynigion yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng darparu addysg effeithiol mewn sefydliadau effeithiol wrth roi dewis i'r rhieni. Ni fydd yn rhaid i unrhyw blentyn deithio mwy na 30 munud i'r ysgol gynradd, wedi i'r cynigion gael eu gweithredu.

9.6 Mae'r cynigion yn rhoi ystyriaeth i anghenion adeiladau ysgol yn yr ardal a nodau'r AALl wrth ddatblygu ysgolion sy'n briodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r cynllun cyfansawdd ar gyfer y dalgylch yn rhagweld y bydd ysgol gwbl newydd yn cael ei hadeiladu gyda thair ysgol arall yn cael eu haddasu i'w gwneud yn addas ar gyfer eu pwrpas. Bwriedir gwneud cais i'r Llywodraeth am gyllid cyfalaf yn unol â strategaeth Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

9.7 Mae datblygu cymuned ddysgu gadarn a sefydlog yn holl bwysig i ddarparu'r cyfleoedd gorau i blant. Trwy sefydlogi'r sefyllfa, gellid rhyddhau penaethiaid, athrawon a staff cymorth i ganolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm sy'n darparu'r cyfleoedd gorau i blant.

9.8 Mae'r cynigion yn rhagweld y datblygir ffocws yn seiliedig ar y gymuned i bob ysgol yn yr ardal. Mae angen i ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ddarparu gwasanaethau sy'n tynnu'r gymuned a'r ysgol at ei gilydd, gan hyrwyddo addysg i oedolion, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gweithgareddau eraill sy'n seiliedig ar y gymuned.

9.9 Byddai creu sefydlogrwydd yn sicrhau dyfodol yn y tymor canolig i'r 4 ysgol gynradd yn yr ardal ac yn ei gwneud yn bosibl i gynllunio yn seiliedig ar y gymuned ddigwydd o amgylch yr ysgolion hynny.

9.10 Pe bai'r cynigion ynn cael eu gweithredu'n llawn, byddai hyn yn arwain at gynilion sylweddol, gan arbed 14% o'r gyllideb refeniw a mwy na 60% o'r gyllideb cynnal yn ogystal â gofynion yn ymwneud ag addasu.

9.11 Ystyriwyd dewisiadau eraill ar gyfer ad-drefnu ysgolion o fewn y dalgylch ond ym marn y Daliwr Portffolio, mae'r cynigion a gyflwynwyd yn darparu'r cydbwysedd gorau posibl rhwng cynnal safonau addysgol, sicrhau bod ysgolion yn hyfyw yn ariannol, cwtogi ar anawsterau staffio, cynnal hygyrchedd at ysgolion a rhoi cyfle i ddatblygu adeiladau ysgol sy'n bodloni gofynion yr unfed ganrif ar hugain yn unol ag anghenion yr ardal arbennig hon.

10. **Camau nesaf**

10.1 Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion hyn, cyhoeddir rhybuddion statudol ar unwaith i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013.

10.2 Os penderfynir symud ymlaen, bydd rhybuddion statudol yn nodi'n glir beth yw nodau'r ysgol. Bydd y rhybudd statudol yn cael ei ddosbarthu i'r ysgol a sefydliadau perthnasol eraill, a rhoddir copïau mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor. Dyrennir cyfnod o ddim llai na 2 fis i gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r rhybudd statudol.

10.3 Ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyhoeddi rhybuddion statudol, bydd y mater yn dod o flaen Bwrdd y Cyngor er mwyn i'r bwriad gael ei gadarnhau. Os penderfyna'r Bwrdd fynd ymlaen gyda'r cynnig, ac os na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol, gellir cadarnhau'r penderfyniad. Os derbynnir gwrthwynebiadau ffurfiol, trosglwyddir y mater i'r Gweinidog dros Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**11. Taith trwy Bwyllgorau'r Cyngor**

11.1 Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnig hwn gerbron Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 24 Chwefror 2011. Rhoddir adroddiad lafar ar drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor yn ystod cyfarfod y Cyngor llawn.

12. **Argymhellion**

12.1 Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i nodi hynny.

**Dogfennau Cefndirol:**

Canllawiau Cylchlythyr y Cynulliad 21/2009
Cyngor Gwynedd – Addysg Gynradd Ragorol ar gyfer Plant yng Ngwynedd
Agendâu a phapurau o Gyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch

Gwybodaeth Ystadegol
Modelau a ystyriwyd
Asesiad Effaith ar Iaith, Cymuned a Chydraddoldeb
Adroddiad Cyngor Llawn – 15/7/10
Copïau llawn o ohebiaeth a dderbyniwyd mewn ymateb i ymgynghoriad

Mae copïau ar gael i bawb eu gweld ar Wefan y Cyngor, Yn Swyddfeydd Ardal yr Adran Addysg (Caernarfon, Dolgellau, Pwllheli) a Llyfrgell y Tywyn ac i Aelodau'r Cyngor - copïau ar gyfer Grwpiau Politicaidd ac yn Lolfa'r Aelodau.

**ATODIAD 1**
**DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL**

**CYNGOR SIR GWYNEDD**

**CYNNIG I GAU YSGOL ABERDYFI**
**YN WEITHREDOL O 31 AWST 2013**

**PAPUR YMGYNGHOROL STATUDOL**

**Nodyn:**
Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011 yn ystod Haf 2010. Penderfynodd Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2010 i addasu'r cynnig er mwyn ymestyn y dyddiad gweithredu i 31 Awst 2013. O ganlyniad, mae angen cynnal cyfnod ymgynghorol newydd ar y cynnig newydd. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn felly ar y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013.

## 1. Cefndir i'r cynnig

1.1 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ar gynnig i gau Ysgol Aberdyfi.

1.2 Os cytunir i'r cynnig, bydd yr ysgol yn cau ar 31 Awst 2013.

1.3 Bwriedir ymestyn dalgylch presennol Ysgol Penybryn, Tywyn, i gwmpasu dalgylch presennol Ysgol Aberdyfi o 1af Medi 2013.

1.4 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn gyda disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a staff Ysgol Aberdyfi yn ogystal ag ysgolion cyfagos, y gymuned leol a chyfranddeiliaid eraill.

1.5 Cynhelir yr ymgynghoriad statudol hyd at 14 Chwefror 2011. Nodir manylion ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon.

1.6 Cyflwynir adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd ar 24 Chwefror 2011 ac i'r Cyngor Llawn ar 1 Mawrth 2011.

## 2. Sut datblygwyd y cynnig?

2.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella gan y Cyngor ym Mehefin 2008 i ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â threfniadaeth ysgolion cynradd y sir.

2.2 Cyflwynodd y Gweithgor Gwella adroddiad gerbron Cyngor Gwynedd ar 2 Ebrill 2009, sef *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*. Nododd y strategaeth y bwriad o adolygu ysgolion cynradd fesul dalgylch uwchradd, a gosodwyd meini prawf ar gyfer blaenoriaethu dalgylchoedd ar gyfer adolygiad. Derbyniwyd y Strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor.

2.3 Cyflwynir y cynnig hwn ar ôl trafodaethau sylweddol yn nalgylch Tywyn o Fehefin 2009 hyd at Hydref 2009, gan gynnwys:

- 5 cyfarfod o Banel Adolygu Dalgylch Tywyn
- Dwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol gyda llywodraethwyr, staff a rhieni holl ysgolion cynradd y dalgylch
- Sesiwn i blant a phobl ifanc y dalgylch
- Asesiad o effaith ieithyddol a chymunedol y cynigion

2.4 Derbyniwyd y cynnig hwn fel sail i ymgynghoriad statudol gan y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2009.

2.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011 rhwng 7 Mehefin a 13 Awst 2010.

2.6 Penderfynodd Cyngor Gwynedd ar 16 Rhagfyr 2010 ei bod yn argymell cau Ysgol Aberdyfi ond ei bod yn dymuno addasu'r dyddiad gweithredu i 31 Awst 2013.

2.7 Rheswm y Cyngor dros newid y dyddiad gweithredu oedd i sicrhau bod gwelliannau i adeiladau Ysgol Penybryn, Tywyn wedi'u cwblhau cyn cau Ysgol Aberdyfi.

2.8 O ganlyniad i'r newid i'r dyddiad gweithredu, mae angen i'r Cyngor ymgynghori ar y cynnig newydd hwn, sef y dylid cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 ar ôl cwblhau'r gwelliannau i Ysgol Penybryn.

## 3. Pam cyflwyno'r cynnig hwn?

3.1 Mae yna nifer o ffactorau yn gyrru'r cynnig. Amlinellir prif ffactorau i'w hystyried yng Nghylchlythyr 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad a Strategaeth Cyngor Gwynedd *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*.

3.2 Mae disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau. Mae Ysgol Aberdyfi yn gorwedd o fewn rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio Cyngor Gwynedd sydd yn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro i bob ysgol sydd â mwy na 15 disgybl llawn

amser. Golyga hyn £22,212 ychwanegol i Ysgol Aberdyfi yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10 yn ychwanegol i'r dyraniad.

3.3 Mae yna nifer sylweddol o lefydd gweigion yn Ysgol Aberdyfi. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio nifer sylweddol fel mwy na 25% pan fo mwy na 30 mewn nifer o lefydd gweigion. Mae 75% o lefydd gwag yn yr ysgol.

3.4 O weithredu'r cynnig, ac wedi ystyried costau ychwanegol cludo plant oed cynradd dalgylch Aberdyfi i Ysgol Penybryn, Tywyn, trosglwyddir hyd at £57,000 ychwanegol i gyllideb Ysgol Penybryn. Bydd hyn yn caniatáu i'r ysgol honno gynnal isafswm o athro a chymhorthydd ychwanegol. Bydd arbediad pellach o £57,000 fydd yn trosglwyddo i gyllideb ysgolion Gwynedd yn bennaf er mwyn lleihau maint dosbarthiadau.

3.5 Mae'r strategaeth yn nodi maint dosbarthiadau delfrydol o rhwng 12-25 disgybl. Maint dosbarthiadau Ysgol Aberdyfi wrth gyflwyno'r cynnig oedd 10 (neu 11.5 erbyn heddiw). O weithredu'r cynnig hwn, rhagwelir dosbarthiadau o tua 24 yn Ysgol Penybryn, Tywyn.

3.6 Mae niferoedd disgyblion Ysgol Aberdyfi wedi lleihau o 66 yn 1975 i 23 heddiw, lleihad o 67%. Mae digon o le yn Ysgol Penybryn, Tywyn, i dderbyn holl blant oed cynradd dalgylch Aberdyfi.

3.7 Mae o leiaf 40% o blant dalgylch Ysgol Aberdyfi wedi bod yn mynychu Ysgol Penybryn, Tywyn, ers nifer o flynyddoedd.

3.8 Bu'r ysgol yng ngofal pennaeth dros-dro ers rhai blynyddoedd. Mae'r strategaeth yn adnabod arweinyddiaeth fel ffactor allweddol wrth ddatblygu addysg safonol.

3.9 Mae cyflwyno'r cynnig hwn – ochr yn ochr â chynigion eraill yn nalgylch Tywyn – yn creu cyfle i'r Cyngor ddatblygu ysgolion sydd yn addas ar gyfer addysg yr 21ain Ganrif. Bwriedir datblygu Ysgol Penybryn i ateb gofynion y ganrif newydd.

## 4. Beth yw manteision cau Ysgol Aberdyfi?

4.1 Gall Ysgol Penybryn, Tywyn, gynnig amrediad ehangach o gyfleusterau addas. Gan fod y Cyngor wedi sicrhau grant cyfalaf gan Llywodraeth y Cynulliad, bydd y cyfleusterau yno i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.

4.2 Bydd mwy o athrawon yn Ysgol Penybryn, Tywyn, gan gynnig amrediad o arbenigedd a phrofiad ym meysydd y cwricwlwm. Mae

ystod ehangach o staff hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i athrawon feithrin gwahanol brofiadau ac i ddatblygu'u gyrfa.

4.3 Bydd cyfle i ddisgyblion ddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn grwpiau mwy sylweddol, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

4.4 Mae Ysgol Penybryn, Tywyn, yn darparu addysg o safon uchel iawn. Cadarnhaodd arolygiad lawn gan ESTYN yn ystod Tymor yr Haf 2010 safon dda iawn y ddarpariaeth yn yr ysgol.

4.5 Mae mwy o hyblygrwydd o fewn cyllideb ysgol fwy. Yn ogystal, bydd cyllideb Ysgol Penybryn yn cynyddu'n sylweddol o wireddu'r cynnig hwn. O ran arbedion pellach, rhoddir ymrwymiad y bydd yr arbedion yn cael eu hail-gylchu o fewn cyfundrefn addysg Gwynedd ac felly'n elwa'r gyfundrefn.

4.6 Mae'r Cyngor yn gweithio ar gynllun i sicrhau y bydd 20% o'r arbedion yn aros o fewn dalgylch Tywyn tan i'r Cyngor gwblhau'r broses o adolygu holl ysgolion y sir. Ar sail cyllideb heddiw, bydd hyn cyfwerth â chadw tua £40,000 ychwanegol o fewn y dalgylch am o leiaf 3 mlynedd arall. Mae ymgynghoriad gyda grwpiau proffesiynol ac undebau llafur yn parhau cyn i'r mater drosglwyddo i gylch democrataidd y Cyngor.

## 5. Beth yw anfanteision cau Ysgol Aberdyfi?

5.1 Mae'r ysgol yn adnodd cymunedol mewn cymuned wledig, a bydd cau'r ysgol yn golygu colli'r adnodd honno.

5.2 Bydd goblygiadau staffio, gall olygu cyfnod o ansicrwydd a diswyddiadau posib. Ar hyn o bryd mae pennaeth llawn amser, un athrawes llawn amser a staff cefnogol. Bydd ymgynghori penodol gyda'r staff a'u cynrychiolwyr undebol fel rhan o'r ymgynghoriad presennol.

5.3 Golyga'r cynnig y byddai angen i ddisgyblion yr ysgol deithio yn ddyddiol i Ysgol Penybryn.

**6. Beth fyddai effaith y cynnig hwn?**

6.1 Byddai Ysgol Aberdyfi yn cau erbyn 31 Awst 2013.

6.2 O 1 Medi 2013, cynigir lle i blant dalgylch Aberdyfi yn Ysgol Penybryn, Tywyn. Estynnir dalgylch Ysgol Penybryn i gwmpasu dalgylch presennol Ysgol Aberdyfi.

6.3 Mi fydd gan blant dalgylch Aberdyfi 3 opsiwn wrth ddewis ysgol, sef:

- mynychu Ysgol Penybryn, Tywyn
- mynychu ysgol arall os ydy'r ysgol honno'n agosach nag Ysgol Penybryn, Tywyn i'r cartref
- gwneud cais fel disgybl all-ddalgylch i ysgol arall os oes lle yn yr ysgol amgen

6.4 Mae adeilad Ysgol Aberdyfi a'r tir o'i chwmpas yn eiddo i'r Cyngor. Ystyrir dyfodol safle Ysgol Aberdyfi fel rhan o Gynllun Rheoli Asedau Cyngor Gwynedd ac yn unol â pholisi a gytunwyd gan Fwrdd Cyngor Gwynedd ar 15 Medi 2009 wrth waredu safleoedd ysgolion.

6.5 Mae Cynllun Cludiant i'r Ysgol y Cyngor yn gwarantu cludiant i'r ysgol dalgylch i bob disgybl sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, neu i ysgol amgen os yw'r ysgol honno'n agosach at gartref y disgybl, yn unol â gofynion y polisi. Yn Hydref 2009, roedd 29 o blant oed statudol cynradd yn byw o fewn dalgylch Aberdyfi. Bydd gan blant sydd yn byw o fewn dalgylch Aberdyfi yr hawl at gludiant am ddim i'r ysgol yn ddarostyngedig i bolisi cludiant y Cyngor.

6.6 Mae gan unrhyw blentyn 3 oed hawl statudol i 10 awr o ddarpariaeth feithrin mewn meithrinfa neu ysgol. Mae yna eisoes 2 feithrinfa yn nhref Tywyn. Nid oes dosbarth feithrin yn Ysgol Penybryn, Tywyn ar hyn o bryd. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol yn ystod Haf 2010 ar gynnig i ganiatáu i Ysgol Penybryn, Tywyn dderbyn plant oed meithrin. Yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr, cytunodd y Cyngor i'r argymhelliad hwn. O 1 Medi 2011 – yn ddarostyngedig i gwblhau'r broses rhybuddion statudol presennol – bydd gan yr ysgol yr hawl i agor dosbarth feithrin i blant 3+ oed.

6.7 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais am arian cyfalaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian cyfalaf i ddatblygu ardal addas bwrpasol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Penbryn, Tywyn ac i gynnal gwelliannau eraill i foderneiddio'r ysgol. Roedd y cais yn llwyddiannus – yn ddarostyngedig i gwblhau y broses rhybuddion statudol yn

nalgylch Tywyn. Cynhelir trafodaethau gyda phennaeth a chorff llywodraethol Ysgol Penybryn ar anghenion yr ysgol.

## 7. Camau nesaf

7.1 Cynhelir cyfarfod ymgynghori statudol gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol ar **1 Chwefror 2011** ac fe fydd ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn â'r rhai a gynhwysir yng nghanllawiau'r Cynulliad. Bydd croeso i unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn cyfrannu eu sylwadau wneud hynny cyn 14 Chwefror 2011. Y bwriad yw cyflwyno adroddiadau ar ddeilliant y cyfnod ymgynghori at sylw:

- Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (24 Chwefror 2011)
- Cyngor Llawn (1 Mawrth 2011).

7.2 Wedi cwblhau'r broses ymgynghori bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig yng ngoleuni canfyddiadau'r ymgynghoriad. Petai'r Cyngor yn penderfynu cadarnhau'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi cyhoeddir rhybudd statudol i gau. Bydd y rhybudd yn cael ei hysbysebu yn yr ysgol, y gymuned ac yn y wasg yn unol â'r gofynion statudol. Bydd y rhybudd yn nodi'r hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig o fewn deufis i ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd. Os bydd gwrthwynebiadau i'r bwriad yn sgil cyhoeddi'r Rhybuddion Statudol yna bydd y penderfyniad terfynol yn nwylo Llywodraeth y Cynulliad.

7.3 Bydd y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau, ymateb yr awdurdod i'r gwrthwynebiadau hynny, ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r cais cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig.

7.4 Mae'r amserlen ar gyfer y broses yn dilyn:

| | |
|---|---|
| 17 Ionawr 2011 | Cychwyn yr ymgynghoriad statudol sy'n cynnwys cyfarfodydd gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol, ac anfon copïau caled o'r ddogfen hon at sefydliadau perthnasol eraill yn yr ardal. Mae cynrychiolaeth o blant Dalgylch Tywyn hefyd wedi cael cyfle i ddweud ei dweud yn ystod y cyfnod Ymgynghorol a bydd cyfle iddynt roi mewnbwn pellach yn ystod y cyfnod statudol maes o law. |
| 1 Chwefror 2011 | Cyfarfod statudol yn Ysgol Aberdyfi |
| 14 Chwefror 2011 | Cau'r cyfnod ymgynghori statudol. |
| 1 Mawrth 2011 | Penderfyniad y Cyngor llawn ar y cynnig |

| | |
|---|---|
| | Os oes penderfyniad i gau'r ysgol, cyhoeddir rhybuddion statudol yn syth gan ganiatáu cyfnod o ddeufis er mwyn cyflwyno gwrthwynebiadau |
| 12 Mai 2011 | Cau'r cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol i'r Rhybudd Statudol.<br><br>Os nag oes gwrthwynebiadau i'r cynnig, bydd y Cyngor yn ystyried cadarnhau'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi. Os oes gwrthwynebiadau, bydd rhaid cyfeirio'r cynnig at sylw Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth fel arfer yn gofyn am gyfnod o tua 7 mis o ddyddiad cau'r cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau er mwyn gwneud penderfyniad. Golyga hyn y byddai Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud penderfyniad terfynol erbyn Rhagfyr 2011.<br><br>Os nad oes gwrthwynebiadau, gallai'r Cyngor benderfynu bwrw ymlaen i gau Ysgol Aberdyfi. Os oes gwrthwynebiadau, y cynharaf y gellir cau'r ysgol yw 31 Awst 2013. |

## 8. Staffio

8.1 Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig hwn. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.

8.2 Fel y nodwyd eisoes bwriedir cynnal trafodaethau manwl gyda'r staff sydd yn gweithio yn Ysgol Aberdyfi ar hyn o bryd mewn perthynas â'r opsiynau sy'n bodoli ar eu cyfer.

8.3 Awgryma'r Cyngor y dylai Ysgol Penybryn geisio clustnodi swyddi ychwanegol sy'n deillio o weithredu'r drefn newydd ar gyfer athrawon o gylch Tywyn.

## 9. Anghenion Adeiladu

9.1 Gall y cynnig hwn fwrw ymlaen heb waith adeiladu sylweddol. Serch hynny, cytunodd Cyngor Gwynedd ei bod yn dymuno gweld y gwaith uwchraddio wedi'i gwblhau yn Ysgol Penybryn cyn gweithredu'r cynnig hon.

## 10. Pwrpas yr ymgynghoriad

10.1 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn er mwyn canfod eich barn chi am y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi.

## 11. Sut gallwch chi ymateb?

11.1 Mae gan y Cyngor dudalennau a gwybodaeth gyffredinol am y broses o ystyried trefniadaeth ysgolion y sir hyd yn hyn ar ei wefan www.gwynedd.gov.uk

11.2 Ceir gwybodaeth gefndirol, gan gynnwys papurau ystadegol, modelau a ystyriwyd ar gyfer y dalgylch, papurau a drafodwyd gan gynghorwyr Gwynedd gan gynnwys adroddiad ar Ymgynghoriad Statudol Haf 2010 ac ystod o bapurau eraill o'ch ysgol, yn eich llyfrgell leol neu drwy gysylltu â'r Cyngor- gweler manylion cyswllt ar waelod y dudalen hon.

11.3 Ystyrir unrhyw ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol gwreiddiol fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn oni bai i'r sylwebydd eu tynnu'n ôl yn ffurfiol ar bapur.

11.4 Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori i staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Aberdyfi.

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ysgol Aberdyfi |
| Dyddiad: | 1 Chwefror 2011 |
| Cyfarfod i'r holl ymgynghorai am | 7:00pm |

Bydd cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu cymryd ac yn cael eu cynnwys fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.

11.5 Er mwyn ymateb yn ysgrifenedig i'r ymgynghoriad dylid anfon eich sylwadau at:

Seimon Williams
Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Sir
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu gallwch ymateb drwy e-bost a'u hanfon at:
trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

11.6 Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau gyrraedd y Cyngor yn ysgrifenedig neu ar e-bost erbyn dydd Llun, 14 Chwefror 2011

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn ffurf arall, cysylltwch â Seimon Williams ar 01286 679247.

**Amserlen**

17 Ionawr 2011 Dosbarthu'r dogfennau ymgynghori

1 Chwefror 2011 Cyfarfodydd ymgynghori â staff, llywodraethwyr a rhieni

14 Chwefror 2011 Dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar y cynnig

1 Mawrth 2011 Y Cyngor yn penderfynu a ddylid cyhoeddi rhybuddion statudol ai peidio

Ie

Na → Gwrthod y cynnig

7 Mawrth 2011 Cyhoeddi rhybuddion statudol

↓

12 Mai 2011 Diwedd y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol

↓

Derbyniwyd gwrthwynebiadau?

Do

Trosglwyddo unrhyw wrthwynebiadau i Lywodraeth y Cynulliad – gallai'r cynnig cael ei gymeradwyo, ei wrthod neu'i newid (disgwylir

Naddo

Cyfarfod Bwrdd y

↓

Cadarnhau'r cynnig?

Ie

Na – Gwrthod y

Cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 a darparu lleoedd yn Ysgol Penybryn, Tywyn o 1 Medi 2013.

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNNIG I GAU YSGOL ABERDYFI**
**I'W WEITHREDU O 31 AWST 2013**

**FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL**

Darparwch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda:

1. Enw: ________________________________

2. Cyfeiriad: ____________________________________
____________________________________
____________________________________

3. Rwy'n ymateb fel: (nodwch isod os gwelwch yn dda):

| Rhiant | Llywodraethw r | Staff | Disgybl | Arall (nodwch isod) |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Arall: ____________________________________________

Nodwch isod a ydych yn cytuno i ni gyhoeddi eich ymateb. Atodwch y dudalen hon i flaen eich ymateb i'r ymgynghoriad statudol. Gyda'ch caniatâd, byddwn yn ail-gynhyrchu ymatebion - wedi tynnu manylion personol fel enwau a chyfeiriadau - mewn adroddiadau i'r Cyngor ar yr ymgynghoriad statudol

Yn ôl gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 mae angen i ni eich hysbysu o'r canlynol. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn i'w bwydo i'w ystyriaethau ar y cynnig hwn. Defnyddir eich gwybodaeth bersonol am y rheswm hwn yn unig, ac efallai y rhennir y wybodaeth gydag asiantaethau sydd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn ymateb i faterion penodol sydd wedi eu codi gennych yn unig. Os nad ydych eisiau i ni ddarparu manylion personol byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau, ond ni fyddwn yn gallu cydnabod eich ymateb.

| Ia, cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb ar ol tynnu gwybodaeth personol | Na, ni ddylai'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb |
|---|---|
| ☐ | ☐ |

**ATODIAD 2**
**COFNODION CYFARFODYDD STATUDOL**

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL**
**1 Chwefror 2011 am 7:00pm**
**CYFARFOD I YMGYNGHORAI (Staff, Llywodraethwyr a Rhieni ysgol Aberdyfi)**

Roedd 32 yn bresennol. Roedd y gynulleidfa yn gymysg o rieni, llywodraethwyr, staff, Cynghorwyr lleol a hefyd cynrychiolwyr o'r gymuned yn ehangach.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd yr Arweinydd Portffolio – y Cynghorydd Liz Saville Roberts.

Cyflwynwyd rhan gyntaf o'r papur statudol er mwyn egluro beth oedd pwrpas y cyfarfod, sef;

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011 yn ystod Haf 2010. Penderfynodd Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2010 i addasu'r cynnig er mwyn ymestyn y dyddiad gweithredu i 31 Awst 2013.

O ganlyniad, mae angen cynnal cyfnod ymgynghorol newydd ar y cynnig newydd. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ar y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013. Bwriedir ymestyn dalgylch bresennol Ysgol Penybryn, Tywyn, i gwmpasu dalgylch bresennol Ysgol Aberdyfi o 1af Medi 2013.

Eglurwyd bod y Cyngor wedi penderfynu diwygio dyddiad gweithredu'r cynnig er mwyn; - sicrhau fod y newid yn y dalgylch yn cyd-ddigwydd, a hefyd
- i sicrhau fod amser digonol i sicrhau fod y gwelliannau wedi cael eu gwneud yn Ysgol Penybryn, Tywyn.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod yr haf, ond bod croeso i unrhywun gyflwyno sylwadau newydd o ganlyniad i'r ymgynghoriad pellach.

Ymhellach, eglurwyd bod yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys nifer o agweddau oedd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad yn yr haf, ond fod cyfle yn ystod y cyfarfod i roddi mwy o wybodaeth ar rai agweddau bellach.
Un o'r agweddau hynny, oedd y gwaith yr ystyrir sydd angen ei wneud yn ysgol Penybryn.
Cyflwynwyd gwybodaeth ar y gwelliannau ystyrir eu gwneud yn ysgol Penybryn.

Amlinellwyd gwariant arfaethedig ar gyfer y dalgylch:
Pris Prosiect Cyfan yn y dalgylch = £7.9m
Gwelliannau Penybryn/Corris/Pennal = £2.5m
Penybryn (oddeutu) = £1.25m

Nodwyd bod posibiliadau o ran yr hyn y gellid ei wneud fel gwelliannau yn yr ysgol, ond eglurwyd fod yr union waith ac anghenion angen eu trafod yn lleol.

- Anghenion traffig
- Man bwyta
- Isadeiladedd TGCh

Nodwyd y camau yr argymhellir eu cymryd er mwyn cynllunio'r gwaith:

- Cyfarfod gyda defnyddwyr,
  yn cynnwys athrawon a llywodraethwyr
- Datblygu'r rhestr o waith
- Mewnbwn pensaer
- Ail gyfarfod gyda defnyddwyr
- Proses ddylunio manwl

Nodwyd amserlen y gwaith adeiladu rhwng Ebrill 2012 a Medi 2013.

*Nodwyd siom nad oedd llawer i ysbrydoli rhieni Aberdyfi i symud eu plant i Benybryn yn y cyflwyniad. Er yr holl fuddsoddiad, mae yn eironig fod y ddarpariaeth yma yn Aberdyfi yn iawn fel y mae.*

Eglurwyd y byddai cyfle i bawb gael mewnbwn yn y gwelliannau yn Penybryn er mwyn sicrhau fod y gwaith priodol ac addas yn cael ei wneud yno. Byddai swm o dros £1.2m ar gael i uwchraddio Ysgol Penybryn.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol fesul adran.
*Holwyd pryd cynhaliwyd yr asesiadau iaith a chymunedol?*

Eglurwyd fod yr asesiad ar yr egwyddor o gau ysgol Aberdyfi wedi ei wneud cyn y cyfnod o ymgynghoriad statudol yn yr haf.

*A oes asesiad effaith economaidd wedi ei gynnal?*

Yn nalgylch Tywyn nid oes asesiad economaidd wedi ei gynnal, ond mae'r asesiadau sydd angen eu gwneud yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad wedi eu cwblhau ac wedi mynd tu hwnt i ofynion y Llywodraeth.

*A fyddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn Penybryn, oni bai fod ysgol Aberdyfi yn cau?*
Byddai rhai agweddau yn cael eu gwneud yn unol â rhaglen wariant y Cyngor, ond mae'r sefyllfa yma yn cynnig cyfle i sicrhau fod Ysgol Penybryn yn addas ar gyfer darparu addysg yn unfed ganrif ar hugain.

*O ystyried yr holl wariant sydd angen ei wneud yn Ysgol Penybryn, a ystyriwyd gwerth tir safle ysgol Aberdyfi, fel bod modd rhoi'r costau hyn yn erbyn y gwerth hwnnw?*

Nodwyd yn bendant nad oedd ystyriaeth i hyn. Yn wir eglurwyd, yn unol â pholisi'r Cyngor ar waredu asedau, y byddai cyfle i'r gymuned leol wneud achos busnes i barhau gyda pherchnogaeth yr eiddo yn lleol os yw yn dymuno hynny. Wedi hynny aiff y safleoedd ar y farchnad agored.

*Mae pryderon am y sefyllfa draffig yn Penybryn.*

Byddai'r agwedd yma o bosib yn un y byddai angen ei blaenoriaethu o ran y gwelliannau ar gyfer yr ysgol. Eto byddai angen trafodaeth leol ar yr agwedd yma.

*Nid oes llawer o sôn am wario arian cyfalaf ar elfennau addysgol.*

Pwysleisir fod angen sicrhau fod y drafodaeth yn lleol ar yr union welliannau a wneir.

*A yw'r arian yma yn parhau ar gael gan y Cynulliad?*

Eglurwyd bod y cais llwyddiannus i'r Cynulliad yn ddarostyngedig i gwblhau'r broses statudol. Nodwyd hefyd bod y Cynulliad yn llithro eu hariannu nhw, ond bod trafodaethau mewn lle i sicrhau fod modd symud ymlaen â'r amserlen fel y bwriedir ac ail broffilio'r gwariant. Adroddwyd ar gadarnhad swyddogion y Llywodraeth bod yr arian ar gyfer prosiect dalgylch Tywyn ar gael i'r Cyngor.

*Be fyddai yn digwydd os na fydd yr arian gan y Cynulliad ar gael?*

Os na ddaw yr arian, ni fyddai'r cynllun fel y mae yn mynd ymlaen. Ond, ni aiff yr angen i ddiwygio'r ddarpariaeth addysg ymaith. Byddai'n rhaid gwneud newidiadau gan nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy i'r dyfodol.

*Cyfeiriwyd at gynnig cyflwynwyd gan gynrychiolwyr Aberdyfi yn ystod y drafodaeth ardal i wneud safle Aberdyfi yn safle ar gyfer plant dan 5 oed ar gyfer y pentref â thref Tywyn. A fyddai modd ystyried hyn ymhellach?*

Ystyriwyd yr opsiwn hwn yn ystod y drafodaeth yn y Panel Dalgylch, ond ni ddatblygwyd y syniad o'r drafodaeth honno. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith fod nifer o blant sydd yn byw yn nalgylch Aberdyfi yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill, nifer ohonynt yn ysgol Penybryn. Ystyriwyd hefyd y gost o'r fath drefniant – ni fyddai arbedion yn deillio o wneud hyn.

*Nodwyd bellach fod y niferoedd hynny wedi newid a bod y ffigwr yn 3.7 yn anghywir. Ers mis Medi mae clwb brecwast wedi ei sefydlu yn yr ysgol a nodwyd ei fod wedi bod yn hynod lwyddiannus gan ddenu mwy o blant i'r ysgol*

Nodwyd bod y ffigwr yn gywir yn ôl gwybodaeth diweddaraf yr Adran Addysg. Nodwyd bod 30 o blant oed addysg gynradd yn byw yn Aberdyfi, ac 18 ohonynt yn mynychu'r ysgol. Gofynnwyd i gynrychiolwyr yr ysgol gynnig gwybodaeth mwy diweddar petai hynny'n wahanol.

*Cwestiynwyd y fformiwla o ddarganfod y nifer o leoedd gweigion, a'r ffaith ei fod yn ymddangos fod yr ysgol ardal arfaethedig o'i natur yn mynd i greu lleoedd agored, ac felly yn creu lleoedd gwag.*

Eglurwyd fod y fformiwla yn seiliedig ar fformiwla genedlaethol. Nodwyd fod dyluniad yr ysgol ardal yn unol â'r anghenion addysgol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

*Sut fydd modd i ysgol Penbryn fedru cynnal darpariaeth i oedran meithrin, gan nad oes darpariaeth ar hyn o bryd?*

Mae newid statudol a rhybudd statudol i'r perwyl hwn wedi ei gyhoeddi. O ran y gwelliannau fyddai angen ei wneud, debyg byddai hyn i'w drafod fel angen fyddai'n ddymunol eu gwneud o'r buddsoddiad yn yr ysgol. Mae union strwythur y ddarpariaeth feithrin – a pha sefydliad (ysgol, cylch meithrin ayb) sydd yn darparu'r gwasanaeth – i'w drafod yn lleol.

*A yw'r Cyfnod Sylfaen wedi ei gychwyn yn Ysgol Penybryn?*

Mae yn ofynnol fod pob ysgol yn y Sir yn gweithredu'r mesur hwn ac mae hynny yn wir am Ysgol Penybryn. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn weithredol yn Ysgol Penybryn eisoes i blant oed 4-7.

*Beth yw'r manteision i'n plant ni i fynd i Ysgol Penybryn?*

Mae tystiolaeth lu yn dangos fod manteision i ddisgyblion fedru cael rhwydweithio mewn grwpiau dysgu, a bod cyfleoedd yn fwy amrywiol yn y fath amgylchiadau. Bydd mwy o athrawon yn medru darparu amrediad ehangach. Yn ogystal, gall mwy o hyblygrwydd fod o fewn cyllideb fwy.

*O'n profiad ni mae plant yn derbyn addysg dda yn yr ysgol fechan yma.*

Mae cymharu perfformiad ysgol fach ac ysgol fawr yn anodd iawn. Gall grwpiau o blant fod yn perfformio yn wahanol mewn blynyddoedd gwahanol. Gall yr amrediad perfformiad amrywio yn fwy sylweddol mewn ysgolion bach oherwydd y nifer fechan o blant sydd yn y grŵp dysgu.

*Mae pryderon o rwygo plant o'u cymuned yn Aberdyfi, ac felly colli'r cyfraniad yma yn lleol.*

Mae tystiolaeth o gymunedau cadarn a chryf ble nad oes ysgol.

*Anghytunwyd â hynny.*

*Gwyddom am y rhaniad rhwng cymunedau eraill ym Mro Dysynni yn sgil datblygu'r Ysgol Ardal, ond byddwn ni yn Aberdyfi yn parhau i ymladd, yn hytrach na gwario ar y broses ad-drefnu dylid gwario i greu swyddi, gwella is-adeiladedd yr ardal, ffyrdd ac ati.*

*Gofynnwyd am eglurder am bwynt 4.6 sy'n cyfeirio am gadw 20% o arbedion yn y dalgylch.*

Eglurwyd fod y drafodaeth hon wedi hannu o drafodaeth Panel Adolygu Dalgylch Tywyn. Nodwyd bod y Cyngor yn gweithio ar gynllun i sicrhau y bydd 20% o'r arbedion yn aros o fewn dalgylch Tywyn tan i'r Cyngor gwblhau'r broses o adolygu holl ysgolion y sir. Eglurwyd fod yr arbedion o'r broses ad-drefnu yn parhau i aros o fewn y gyfundrefn addysg.

*I ble mae arbedion Abergynolwyn yn mynd ar hyn o bryd?*

Yn statudol, eglurwyd fod cyllideb ysgol Abergynolwyn yn parhau, ond fod rhybudd statudol i gau Abergynolwyn wedi ei gyhoeddi. Os caeir Ysgol Abergynolwyn, byddai elfen o'r arbedion yn dilyn plant Abergynolwyn i'w hysgol newydd (gyda'r mwyafrif yn mynychu Ysgol Bryncrug), elfen i gyflogi'r athrawes o Abergynolwyn sydd bellach yn gweithio cyfran o'i hamser ym Mryncrug a chyfran ym Mhenybryn, ac elfen yn ol i'r gyllideb addysg ganolog i'w ddosbarthu i ysgolion drwy'r sir.

*A fydd cludiant plant 3 oed yn cael ei dalu gan y Cyngor?*

Nid oes cyfrifoldeb statudol i ddarparu gludiant i blant 3 oed. Wrth gwrs byddai gweddill plant Aberdyfi yn derbyn cludiant yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Byddai modd i rieni plant oed meithrin wneud cais am gludiant ar fws ar gost os fydd lle ar y bws.

*Cyfeiriwyd at y cydweithio oedd wedi bod rhwng ysgol Pennal ac Aberdyfi yn y gorffennol, ac er bod rhai problemau wedi bod, fod y cydweithio hwnnw wedi bod yn fuddiol iawn. Nodwyd pryder nad oedd y drafodaeth hon wedi ei chofnodi yn ystod y trafodaethau dalgylch, yn enwedig y cynnig i greu perthynas gydweithio tair ffordd rhwng Pennal, Corris ac Aberdyfi.*

Yn ystod cyfnod y trafodaethau lleol mi ddangosodd Corris a Pennal yr awydd amlwg i gydweithio.

*Nodwyd pryder nad oedd y mater wedi ei gyfleu yn gywir o'r trafodaethau lleol.*

Roedd nifer o opsiynau wedi eu hystyried yn ystod y trafodaethau lleol, ond wrth wneud penderfyniad rhaid oedd edrych yn ehangach ar y dalgylch yn enwedig o gofio fod yn rhaid ystyried yr angen i ddenu buddsoddiad i gefnogi'r cynllun a bod yn rhaid i gais i'r Cynulliad fod yn un realistig.

*Mae'r Cynulliad i fod yn bodoli er mwyn ein gwarchod ni, nid i'n cau ni. Mae yn ymddangos fod strategaeth yma i greu rhwydwaith addysgol trefol.*

Mae ymdrech gwirioneddol yn nalgylch Tywyn i warchod addysg wledig wrth sefydlu'r Ysgol Ardal. Efallai byddai rhai yn ein barnu am beidio mynd ymhellach a chanoli addysg yn Nhywyn.

*Gofynnwyd am eglurhad o'r polisi cludiant.*

Mae Cynllun Cludiant i Ysgol y Cyngor yn gwarantu cludiant i'r ysgol dalgylch i bob disgybl sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, neu i ysgol amgen os yw'r ysgol honno'n agosach at gartref y disgybl, yn unol â gofynion y polisi. Bydd gan blant sydd yn byw o fewn dalgylch Aberdyfi yr hawl i gludiant am ddim i'r ysgol yn ddarostyngedig i bolisi cludiant y Cyngor.

*Mi rydw i wedi gweld ysgolion eraill mewn siroedd eraill, a rhaid dweud maent yn atyniadol iawn. A fyddai modd gyrru plant o Aberdyfi i'r Ysgol Ardal newydd?*

Byddai hyn yn ddibynnol ar niferoedd o ddalgylch yr ysgol a dewis rhieni yn y pendraw.

*Bydd yr addasiadau sydd angen ei gwneud yn Penybryn o ran darpariaeth meithrin yn ofyn mawr ar y gyllideb sydd ar gael. Yn ogystal, mae yn ymddangos fod mwy o blant meithrin yn Nhywyn ac Aberdyfi nag sydd o le iddynt.*

Mater yn lleol fydd sut darperir addysg feithrin, ac eto gellid cael trafodaeth leol ar y defnydd o'r buddsoddiad yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud addasiadau i ddarparu addysg feithrin yn Penybryn, ond dyna pam fod newid i'r amser gweithredu i sicrhau fod y gwaith a gwelliannau wedi eu gwneud.

*Mae yn ymddangos fod llawer o waith i'w wneud yn Ysgol Penybryn i'w gwneud yn addas tra bod gennym yr hyn sydd ei angen arnom yma yn Aberdyfi. Byddai yn gwneud gwell synnwyr defnyddio safle Aberdyfi fel safle ysgol dderbyn i blant Aberdyfi a Tywyn.*

Nodwyd fod y cais cyfalaf wedi bod yn llwyddiannus er mwyn gwneud gwelliannau yn Penybryn a bod angen sicrhau fod llais Aberdyfi yn cael ei chlywed yn y drafodaeth ar y gwelliannau hynny.

*Os bydd Aelodau yn penderfynu cadw Aberdyfi ar agor, a fydd hyn yn peryglu'r Ysgol Ardal?*
Mae yn debyg byddai yn rhaid ail-negodi'r cytundeb gyda'r Cynulliad pe byddem yn y fath sefyllfa. Nid oes felly modd rhoi unrhyw sicrwydd.

Eglurwyd fod polisi staffio manwl wedi ei ddatblygu gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig hwn a chefnogaeth ar gael gan Wasanaeth Personél y Cyngor. Awgryma'r Cyngor y dylai Ysgol Penybryn geisio

clustnodi swyddi ychwanegol sy'n deillio o weithredu'r drefn newydd o sefyllfaoedd fel un Aberdyfi

*Gwnaed cais i'r sylwadau anfonir cael eu cyflwyno i Aelodau unigol.*

Cytunwyd i hyn.

*Gwnaed cais i'r Arweinydd Portffolio ar gyfer trafodaethau dalgylch i ddod fod angen iddi fynychu'r ysgolion pan fo plant yno, er mwyn medru cael yr ymdeimlad priodol o'r ysgol.*

*Beth wnaiff ddigwydd os na fyddwn yn anfon ein plant i Penybryn?*

Dewis rhieni fydd hynny.

*Beth sydd yn rhaid i ni ei wneud i gadw Aberdyfi ar agor?*

Awgrymir byddai rhaid cyfleu'r ddadl i Aelodau Cyngor Gwynedd, ac yn y pendraw, mae'n debyg, i'r Gweinidog Addysg yn y Cynulliad.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau. Nodwyd fod pawb yn y cyfarfod yn rhannu'r un nôd - sef yr addysg orau i'r plant, ond fod y ffordd o gyflawni hynny yn wahanol. Atgoffwyd pawb fod y cyfnod ymgynghori yn agored tan 14/2/11.

**ATODIAD 3**
**DADANSODDIAD O SYLWADAU'R YMGYNGHORIAD STATUDOL**

**3.1 Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol ar y Cynnig i Gau Ysgol Aberdyfi yn Awst 2013**

**16 o ymatebion ysgrifenedig wedi ei dderbyn;**
1 Llythyr Cymraeg
9 Llythyr Saesneg
6 E-bost Saesneg

| Cod Sylwadau | Sylwadau | Nifer o ymatebion ysgrifenedig sy'n cynnwys y sylw | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Ysgol** | | |
| 2. | Niferoedd ysgol yn cynyddu gyda phlant yn cofrestru yn yr ysgol o du allan i'r dalgylch | 3 | Gall hyn fod yn wir er nad oes unrhyw dystiolaeth gref i gefnogi'r honiad yma. Rhagamcaniadau diweddaraf yr ysgol oedd y gallai gael hyd at 25 o ddisgyblion o fewn y 3 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, yr achos yw bod tua 30 o ddisgyblion oed cynradd yn byw yn nalgylch Aberdyfi ac o'r rheiny mae tua 40% yn dewis mynychu ysgolion eraill heblaw am Aberdyfi. |
| 3. | Dim clwb brecwast a chlwb Ar Ôl Ysgol ym Mhenybryn / Penybryn ddim yn flaengar i beidio cynnig y gwasanaethau hyn / Trafodaethau wedi rhoi'r gred ei fod yn annhebygol o ddigwydd yn y dyfodol agos; Ysgol Aberdyfi yw'r unig ysgol | 3 | Mae gwasanaethau Allgyrsiol sy'n cael eu dosbarthu yn Ysgol Penybryn yn fater i'r ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn y dalgylch i gynnig gofal plant o 8am tan 5.30pm bob dydd | | |
| 4. | Mynediad diogel yn Aberdyfi | 1 | Bydd rhan o'r pecyn i uwchraddio Ysgol Penybryn yn cynnwys gwella mynediad i'r adeilad. |
| 5. | Gan Aberdyfi mae'r ardal Cyfnod Sylfaen gorau yn y dalgylch, nid oes gan Dywyn gyfnod sylfaen | 3 | Ysgol Penybryn, Tywyn, ar hyn o bryd yn darparu addysg i blant rhwng 4-11 oed. Fel rhan o'r ad-drefniant hwn, cynigir y dylai Ysgol Penybryn agor dosbarth meithrin i ganiatáu mynediad i blant 3 oed. Mae'r cynnig hwnnw ar hyn o bryd yn destun i rybuddion statudol. |
| 6. | Mae'r gostyngiad mewn disgyblion dros y blynyddoedd diweddar i ryw raddau o ganlyniad i newid mewn / Dewis recriwtio gwael gyda'r pennaeth / Nid yw cael pennaeth yn broblem, mae profiad blaenorol yn dangos fod y pennaeth gmewn gofal yn decach na rhai o'r rhai parhaol blaenorol / rhai rhieni wedi penderfynu gosod eu plant mewn ysgolion eraill, hawdd ei eglurom oherwydd yr ansicrwydd mae'r Cyngor wedi ei greu ynghylch parhad ysgol Aberdyfi / Cyngor Gwynedd wedi gadael Aberdyfi i lawr mewn blynyddoedd diweddar trwy beidio â chael pennaeth newydd, a arweiniodd at i rieni Aberdyfi symud eu plant i Bennal a Thywyn | 2 | Mae nifer o ysgolion yn ardal Tywyn wedi ei chael yn anodd penodi penaethiaid. Pan gychwynnodd yr adolygiad yn 2009, roedd pedair o'r wyth ysgol yn y dalgylch yng ngofal penaethiaid dros dro, tra bod dwy arall yn cael eu harwain gan athrawon a oedd yn gymwys i ymddeol. Gofynnodd y Cyngor i ysgolion ystyried beidio penodi penaethiaid parhaol yn ystod adolygiad blaenorol o drefniant ysgolion yn 2005-7 ond tynnwyd y cais hwnnw'n ôl yn dilyn gwrthod y cynnig traws-sirol ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol y pŵer i benodi pennaeth parhaol. |
| 7. | Safon ardderchog o addysg / buddiannau maint dosbarthiadau bach / dosbarthiadau Penybryn eisoes wedi gorbentyrru / dim tystiolaeth i gefnogi y bydd plant bach yn derbyn gwell addysg ym Mhenybryn / ysgolion bach yn cael budd o ddysgu sgiliau cymdeithasol a mentora / plant o 'allu gwael' yn fwy tebygol o lwyddo mewn amgylchedd 'ysgol leol' / maint dosbarthiadau ym Mhenybryn yn debygol o fod ymhell dros 25 / dosbarthiadau ym Mhenybryn yn 28-30 ar hyn o bryd | 4 | Mae strategaeth y cyngor, *Addysg Gynradd o'r ansawdd Gorau i blant Gwynedd,* yn anelu at sicrhau dosbarthiadau o rhwng 12-25 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae dosbarthiadau yn Aberdyfi yn is na'r trothwy 12 disgybl, tra bo rhai dosbarthiadau ym Mhenybryn yn uwch na'r trothwy disgybl o 25.<br><br>Gosodwyd Ysgol Aberdyfi mewn mesurau arbennig yn dilyn dau arolygiad ESTYN yn 2005. Tynnwyd yr ysgol allan o'r mesurau arbennig yn 2008 ac yn awr mae'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darparu addysg foddhaol. Yn ddiweddar arolygwyd Ysgol Penybryn, Tywyn, a chafwyd ei bod yn darparu addysg o safon uchel iawn. |
| 8. | Byddai'n annheg cau Ysgol Aberdyfi cyn agor yr ysgol ardal newydd / dylid gohirio'r broses ad-drefnu tan gwblhau cynlluniau'r ysgol ardal. | 1 | Y cynnig dan sylw yw gau Ysgol Aberdyfi ac i gynnig llefydd i ddisgyblion oed cynradd Aberdyfi yn Ysgol Penybryn, Tywyn. Penderfynodd y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010 ei bod yn dymuno cwblhau gwelliannau i Ysgol Penybryn cyn cau Ysgol Aberdyfi. Y newid yn nyddiad gweithredu'r cynnig sydd wrth wraidd yr ymgynghoriad newydd hon. Nid yw'r cynnig yn ddibynnol ar gwblhau'r ysgol ardal newydd ar gyfer Bro Dysynni. |
| 9. | **Cymuned** | | |
| 10. | Nid yw'r Asesiadau Ardrawiad Cymuned ac Iaith wedi eu cymryd i ystyriaeth / Ni chynhaliwyd asesiad economaidd / Beth fydd effaith cymdeithasol-economaidd colli'r ysgol gymunedol hon? | 4 | Dilynodd cynigion datblygu i ardal Tywyn gyfnod maith o drafodaethau'n lleol. Pan gafwyd y cyhoeddiad gwreiddiol ar y cynigion i ardal Tywyn ym Medi 2009, y cylchlythyr perthnasol oedd Cylchlythyr 23/02. Yn ystod yr un mis, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllaw diwygiedig yng Nghylchlythyr 021/2009 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau iaith a chymuned ar gynigion a oedd i'w cyhoeddi o Ionawr 2010. Cynhaliodd Cyngor Gwynedd yr asesiadau hyn ac mae wedi cymryd ystyriaeth lawn o'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Cyhoeddwyd yr asesiadau ar wefan y Cyngor a'u rhannu gydag aelodau etholedig, ysgolion ac eraill. Nid yw'n ofynnol ar i'r Cyngor ddarparu Asesiadau Ardrawiad Economaidd. |
| 11. | Cysylltiadau cryf yn y gymuned leol/ yr ysgol yw calon y gymuned / byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol / Plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ond hyn yn llai tebygol o | 5 | Byddai disgyblion Ysgol Aberdyfi yn trosglwyddo i ysgol well ac un wedi'i gwella yn Nhywyn. Anogir Ysgol Penybryn i ddatblygu ymhellach fel ysgol â ffocws cymunedol a bydd yn gweithredu fel pwynt ffocws i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddigwydd os bydd yr ysgol yn cau / sut mae cau'r ysgol yn cyfrannu at gynnal y gymuned? / byddai cau yn achosi colled ysbrydol ac emosiynol/ cadwch Ysgol Aberdyfi ar agor i gynnal calon y gymuned<br>Mae Aberdyfi yn bentref amddifad – wedi colli llyfrgell, 2 fanc, gwasanaeth bws, yr ysbyty agosaf yn 25 milltir i ffwrdd a'r feddygfa yn aml wedi cau | | gymuned ehangach Tywyn/Aberdyfi.<br><br>Mae tua 40% o blant oed cynradd sy'n byw yn Aberdyfi eisoes yn mynychu ysgolion heblaw un Aberdyfi, gyda'r mwyafrif yn dewis mynychu Ysgol Penybryn, Tywyn.<br><br>Mae bron i hanner disgyblion oed cynradd sy'n byw yn Aberdyfi eisoes yn derbyn eu haddysg yn Nhywyn. Mae'r mwyafrif helaeth o blant Aberdyfi yn mynychu Ysgol Uwchradd Tywyn o 11 oed.<br><br>Derbynnir y gall pryderon ynghylch cau ysgol effeithio'n negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd angen i Ysgol Penybryn ffocysu ar adeiladu cysylltiadau gyda chymunedau y bydd yn eu gwasanaethu os derbynnir y cynnig hwn. Ychydig o ddefnydd a wneir o'r ysgol gan y gymuned ehangach gan fod amrywiaeth dda o adeiladau cyhoeddus ar gael yn Aberdyfi.<br><br>Tra bo ysgol yn medru gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd y gymuned, ei phrif bwrpas yw darparu'r addysg orau bosib i'w disgyblion. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad ardrawiad cymunedol yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth. Rhannwyd yr adroddiad hwn â rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o weithrediadau y gellid eu cymryd i liniaru'r hyn a welir fel effeithiau negyddol cau ysgol. |
| 12. | Rhoddir pwyslais ar "werth am arian" tybiedig, ond mae'r symiau a ddyfynnir i gyd yn amcangyfrifon | 2 | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ar yr arbedion disgwyliedig wedi ei seilio ar y broses modelu ariannol cadarn sy'n dynodi'r dyraniadau cyllideb bresennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13.** | Canlyniad cau'r ysgol fyddai diffyg teuluoedd yn symud i mewn, gormod o breswylwyr wedi ymddeol, gan olygu mwy o alw am adnoddau gan y cyngor a gostyngiad mewn trethi a refeniw / Ymdrin â phroblemau tai gan fod nifer ar hyn o bryd yn dai gwyliau – hyn yn ei dro'n annog teuluoedd ifanc / cyfran fawr o ail gartrefi yn talu trethi llawn a gan nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau Cyngor Gwynedd gydol y flwyddyn, mae'r costau lleol yn fwy na chael eu cwrdd gan y refeniw swrplws lleol. Petai'r proffil demograffig yn newid, sut y gallai Aberdyfi gael ei ysgol yn ôl? / Niferoedd yn cael eu heffeithio gan argaeledd stoc dai, argaeledd swyddi lleol, ansawdd y cyfleusterau lleol a gwasanaethau ar seilwaith cludiant lleol / adeilad newydd LlCC yn Aberystwyth eisoes yn cael effaith gyda phobl yn cymudo | 3 | Mae tystiolaeth fod hyn eisoes yn digwydd. Mae Aberdyfi'n bentref sylweddol gyda nifer o fusnesau ac eto mae oddeutu 30 o ddisgyblion oed cynradd, cyfran fawr ohonynt yn cael eu haddysg tu allan i'r pentref. |
| 14. | Sut mae cau'r ysgol yn cyfrannu at adeiladu cynhwysedd, caffael sgiliau a threfniadau ar gyfer datblygiad strategol lleol; a hefyd helpu sicrhau fod ardaloedd gwledig yn aros yn ddeniadol ar gyfer cenedlaethau i ddod? | 2 | Tra bo ysgol yn medru gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd y gymuned, ei phrif bwrpas yw darparu'r addysg orau bosib i'w disgyblion. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad ardrawiad cymunedol yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth. Rhannwyd yr adroddiad hwn â rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o weithrediadau y gellid eu cymryd i liniaru'r hyn a welir fel effeithiau negyddol cau ysgol. |
| 15. | **Ymgynghoriad** | | |
| 16. | Ffigyrau anghywir yn y Papur ymgynghorol / papur wedi gadael allan nifer o fanylion perthnasol i greu darlun gwallus | 4 | Paratowyd y papur ymgynghorol statudol yn unol â gofynion y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009. Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddwyd yn y ddogfen wedi ei gwirio a'i chadarnhau'n gywir. |
| 17. | Nid oedd swyddogion y Cyngor a'r Deilydd Portffolio wedi trafferthu i ddarllen y ddogfen a gynhyrchwyd gan | 1 | Mae'r holl ohebiaeth a anfonwyd i'r tîm Prosiect Ad-drefnu Ysgolion yn ystod yr ymgynghoriad statudol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | lywodraethwyr yr ysgol yn eu hymateb i'r cynigion cau'r ysgol. | | cychwynnol yn haf 2010 wedi ei atgynhyrchu yn llawn a'i gyflwyno i'r Cynghorwyr. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei ailgyhoeddi yn ystod yr ymgynghoriad statudol. |
| 18. | Cofnodion gwallus yng nghyswllt trafodaethau gyda llywodraethwyr Pennal / Opsiwn cydweithredu rhwng Aberdyfi a Pennal heb ei archwilio'n llawn a dylai'r cyngor ailymweld â'r cynnig hwn / mae cofnodion cyfarfod statudol 1 Chwefror 2011 yn hepgor hyn | 3 | Yn ystod cyfarfodydd anffurfiol yn ysgol Pennal, dywedwyd fod cynrychiolwyr yr ysgol yn ffafrio sefydlu model o gydweithredu ffurfiol gydag Ysgol Dyffryn Dulas, Corris, ac nad oeddynt yn ffafrio sefydlu model cydweithredol gydag Aberdyfi. Beth bynnag, ystyriwyd opsiynau gan gynnwys sefydlu model o gydweithio gydag Ysgol Penybryn, gydag Ysgol Dyffryn Dulas, a gydag Ysgolion Dyffryn Dulas a Phennal yn ystod cyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch. Roedd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Ysgol Pennal ond yn un ymhlith nifer o ffactorau sydd wedi arwain at y cynnig y dylai Ysgol Aberdyfi gau, yn cynnwys maint bychan yr ysgol a grwpiau dysgu, profiadau disgyblion, y nifer fawr o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill, gwariant fesul disgybl. |
| **19.** | Mae'r Cyngor wedi bod yn ddisymud wrth roi'r achos dros gau ymlaen ac anwybyddu rhesymau dilys dros gadw'r ysgol yn agored / ni wnaethoch ymgynghori o gwbl dim ond datgan fel ffaith eich barn gyda meddwl eisoes wedi ei wneud i fyny ar y pwnc hwn / ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r gymuned | 3 | Ystyriwyd ystod o opsiynau yn ystod trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch a fyddai wedi cadw Ysgol Aberdyfi ar agor fel ysgol unigol neu fel rhan o drefniant o gydweithio gydag ysgol arall. Paratowyd y papur ymgynghorol statudol yn unol â gofynion y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009. Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghorol statudol yn yr ysgol a agorwyd, ar gais llywodraethwyr yr ysgol, i'r gymuned ehangach. Mae'r papur ymgynghorol statudol yn amlinellu'r rhesymau dros y cynnig a hefyd yn nodi anfanteision y cynnig. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r holl ohebiaeth a gafwyd, a bydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | copïau llawn o ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghoriad hwn a chyfnod ymgynghoriad haf 2010 ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar ôl cuddio gwybodaeth bersonol. |
| 20. | **Adeilad** | | |
| 21. | Mae'r adeilad ysgol a'i diroedd yn ased dichonadwy i'r Adran Addysg / Mae peth gofod heb ei ddefnyddio o fewn yr adeiladau - mae capasiti i dyfu | 3 | Mae lleoedd gwag sylweddol yn yr ysgol heb unrhyw debygolrwydd y gall y lleoedd gael eu llenwi gan blant sy'n byw yn y pentref. |
| 22. | Pam gwario arian ar adeilad Fictoraidd ym Mhenybryn, pan fo Aberdyfi yn adeilad modern gyda chostau cynnal a chadw isel? Beth fydd £1.25 miliwn wedi ei wario ym Mhenybryn? | 5 | Er y gall yr holl adeiladau yn ardal Tywyn gyflenwi safon dda o addysg, mae ystyriaethau'n dod allan drwy raglen *Ysgolion y 21ain Ganrif* Llywodraeth Cynulliad Cymru i uwchraddio holl adeiladau ysgol yng Nghymru i safon newydd cytunedig. Mae hwn yn gyfle i sicrhau'r cyfleusterau addysgol gorau bosib i blant yn ardal Tywyn. Sefydlir grŵp defnyddwyr gyda chynrychiolwyr Ysgol Penybryn ac Ysgol Aberdyfi i sefydlu pa gyfleusterau sydd eu hangen yn yr ysgol tu draw i waith mae adran Eiddo'r Cyngor wedi ei ddynodi. |
| 23. | Yn yr hinsawdd bresennol, mae argaeledd ariannu i weld yn ansicr iawn ac felly mae'n gosod marc cwestiwn uwchben dichonolrwydd yr holl brosiect | 1 | Cyflwynwyd cais am ariannu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mai 2010. Yng Ngorffennaf 2010, cadarnhaodd y Llywodraeth ei fod wedi dyrannu'n amodol £5.5m o'r £7.9m o gostau cyffredinol prosiect Tywyn yn destun i gwblhau'r prosesau statudol perthnasol. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu'r ariannu angenrheidiol arall sef £2.4m. |
| 24. | Mae Aberdyfi yn bentref amddifad – wedi colli llyfrgell, 2 fanc, gwasanaeth bws, yr ysbyty agosaf yn 25 milltir i ffwrdd a'r feddygfa yn aml wedi cau; bydd cau yn cael effaith andwyol ar yr economi lleol | 3 | Er y gall hyn fod yn wir, mae gan Aberdyfi amrediad da o adeiladau cyhoeddus yn cynnwys canolfan gymuned, theatr, swyddfa bost, a nifer o siopau, tai bwyta, a thafarndai, banciau gydag ATMs, cyfleusterau chwarae a chwaraeon, canolfan wybodaeth dwristaidd a gorsaf drenau. Comisiynwyd Asesiad o Effaith Cymunedol gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y Cyngor a ystyriwyd yn ystod y broses o gymryd penderfyniadau. |
| 25. | Beth fydd yn digwydd i'r adeilad ar ôl cau'r ysgol? A yw yn y Parc Cenedlaethol, ac felly'n destun i gyfyngiadau cynllunio? Beth fydd yn digwydd i ysgol Aberdyfi – rydych yn bwriadu gwerthu'r ased, mi dybiaf er mwyn adeiladu mwy o dai | 2 | Mae gan y Cyngor bolisi ar ddefnydd safleoedd ysgol ar ôl cau a dderbyniwyd gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. Yn ei hanfod, rhoddir cyfnod o oddeutu 6 mis i'r gymuned ar ôl i'r ysgol gau i roi achos busnes wrth ei gilydd ar gyfer defnydd o'r ysgol. Mae'r Cyngor yn cadw'i ddisgresiwn i ryddhau'r adeilad a thelerau ffafriol i'r gymuned petai'r achos busnes yn gadarn. Bydd y swyddog adfywio lleol ar gael i gynghori'r gymuned. |
| 26. | Cwestiynu cofrestru tir/ mae yna nifer o faterion sy'n weddill gyda chofrestru tir, rhai wedi eu hateb a rhai eraill heb eu hateb | 2 | Mae'r Cyngor yn y broses o gofrestru'r holl dir yn eu perchnogaeth yn wirfoddol ac maent wedi bod yn gwneud hyn ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Cyngor yn cofrestru ei dir yn ôl yr ardaloedd a brynwyd a'r hyn sy'n gyfleus i'w gofrestru gyda'i gilydd yn achos tiroedd cyfagos. Nid yw'r Cyngor yn cofrestru ei holl dir gyda Theitlau unigol. Mae'r Gofrestrfa Dir wedi gwneud un camgymeriad gyda'r maes parcio trwy ddim ond cynnwys ei hanner. Byddant yn cywiro hyn maes o law. |
| 27. | **Cynigion amgen** | | |
| 28. | Cadw Ysgol Aberdyfi i'w defnyddio fel ysgol Cyfnod Sylfaen neu Ysgol Feithrin bwrpasol ac arbed costau datblygu yn Ysgol Penybryn. | 1 | Ystyriwyd yr opsiwn o leoli dosbarth meithrin hyd at ac yn cynnwys yr holl ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen i'r ddwy gymuned yn ystod y broses adolygu dalgylch ar gais un o lywodraethwyr Aberdyfi. Byddai'r cynnig yn ddrud felly cafodd ei wrthod. |
| 29. | Rhaid dangos fod yr holl bosibiliadau ar gyfer cydweithio gydag ysgolion cyfagos wedi eu harchwilio'n llawn. Nid yw'n ymddangos mai dyma'r achos yma ac felly mae'n bwrw amheuaeth ar y broses ymgynghoriad hyd yma ac felly'r sail ar gyfer symud ymlaen gydag ymgynghoriad ffurfiol yn awr / cynigiwyd opsiynau eraill ond fe'u | 2 | Ystyriwyd amrediad o fodelau amgen yn ystod trafodaethau Panel Adolygu'r Dalgylch yn 2009. Roedd y rhain yn cynnwys dim newid, sefydlu trefniadau cydweithredol rhwng Ysgol Aberdyfi a naill ai Ysgol Penybryn, Ysgol Pennal neu Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas, ynghyd â'r cynigion sy'n destun yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hanwybyddwyd hwy | | ymgynghoriad hwn. |
| 30. | **Cyffredinol** | | |
| 31. | Gofynnwn am i'r cynigion gael eu hymddihatru fel y gall cynghorwyr bleidleisio ar wahân ar y materion unigol: sef cau ysgol Aberdyfi a ffederaleiddio rhwng Pennal a Dyffryn Dulas | 1 | Mae'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi yn destun adroddiad ar wahân. Bydd gofyn i gynghorwyr bleidleisio ar y cynnig hwn yn unig. Nid yw cynnig i sefydlu trefniant cydweithredol rhwng Ysgolion Dyffryn Dulas a Phennal yn destun i ymgynghoriad statudol. |
| 32. | Mae Dyffryn Dyfi yn arbennig ac mae Aberdyfi'n rhan o 'Warchodfa Biosffer UNESCO' - sut mae cau ysgol yn helpu datblygu economi lleol hunangynhaliol, ardal fwy cynaliadwy a chwrdd â dynodiad biosffer Unesco a gwneud yr ardal yn lle i fyw, gweithio a magu plant? | 1 | Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar gyflenwi addysg gynradd o'r ansawdd gorau. Mae ymwybyddiaeth o ardal yn elfen allweddol o unrhyw ddarpariaeth gwricwlaidd. Ar hyn o bryd mae pentref Aberdyfi yn ffyniannus er gwaethaf y nifer isel o blant sy'n mynychu'r ysgol gynradd. |
| **33.** | **Cludiant** | | |
| 34. | A yw cludiant i Ysgol Penybryn wedi ei gostio'n gywir? A fydd rhywun ar y bysiau i hebrwng y plant? A ydych chi wirioneddol yn disgwyl i rieni deimlo'n gyfforddus yn rhoi eu plant 4 oed ar fws i deithio i ysgol hyd yn oed os oes rhywun yn teithio gyda nhw ac yn enwedig os nad oes neb? / Cost yn yr ôl troed carbon oherwydd teithiau ychwanegol | 3 | Mae'r gost ragamcanedig o gludiant i'r ysgol ardal newydd wedi ei seilio ar brofiad Swyddogion Cludiant o gontractau a ddyfarnwyd drwy'r Sir ac mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd disgwyliedig mewn costau tanwydd. Dylid cofio hefyd fod costau cynyddol tanwydd yn effeithio ar gostau cynnal a chadw ysgolion presennol.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd ar briodoldeb a diogelwch bysiau ysgol gan rieni yn yr ardal. O ganlyniad, rhoddwyd addewid y bydd gwregys diogelwch yn ofyniad hanfodol o gontractau gyda darparwyr teithio sy'n bidio i ddarparu cludiant ar y llwybrau hyn, Hefyd mae'r Cyngor wedi addo darparu goruchwyliaeth ar y bysiau o leiaf am y tymor cyntaf o'r trefniant newydd. Adolygir y ddarpariaeth ar ddiwedd y tymor hwnnw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Aseswyd y llwybr gan swyddogion Cyngor ac mae'n ddiogel. |
| **35.** | **Cyllid** | | |
| 36. | Mae i weld yn gamarweiniol iawn awgrymu fod Ysgol Penybryn yn mynd i fod â'r modd i dalu costau ychwanegol. Os rhywbeth, mae'n debygol o wynebu toriadau cyllideb gyda'r posibilrwydd o golli o leiaf un aelod o staff. | 1 | Mae'r gyllideb ragamcanedig yn dilyn gweithredu'r cynnig wedi ei seilio ar gyllidebau 2009. Amlinellodd yr amcangyfrif arbediad amcangyfrifiedig o £57,000. Mae Ysgol Penybryn, fel bob ysgol yng Ngwynedd nad yw'n destun i bolisi diogelu lleiafswm staffio'r Cyngor (h.y. unrhyw ysgol sydd ar hyn o bryd gyda mwy na 38 o ddisgyblion) yn destun i doriadau. Mae cyllid ysgolion yn dilyn disgyblion, felly byddai unrhyw gynnydd mewn niferoedd disgyblion yn Ysgol Penybryn yn arwain at gynnydd yn y gyllideb a ddyrennir iddi. |
| 37. | Mae'n rhaid bod cyfanswm costau i'ch cynigion gyrraedd y sefyllfa hon yn afresymol o uchel | 1 | Mae'r camau a gymerwyd i ddatblygu'r cynnig hwn yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyda phroses a amlinellwyd gan Gyngor Gwynedd i gynnal arolygon dalgylch pan fabwysiadwyd yn Ebrill 2009, heb unrhyw wrthwynebiad, *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* |
| 38. | "Mae rhywun yn cael ei hudo i gredu bod cau ysgol Aberdyfi yn cael ei ddefnyddio fel ffactor i gyfiawnhau'r gwariant ar ysgol Tywyn i'w gwneud yn addas i'r defnydd presennol ohoni" / Mae'n amlwg o ddarllen eich dogfen mai eich bwriad yw cyllido gwelliannau yn Nhywyn o'r arian a ddaw yn sgil cau Aberdyfi | 2 | Nid yw hyn yn wir a gwelir nad yw o edrych ar yr amryfal ddogfennau a gyhoeddwyd yn y broses o ymwneud â'r cymunedau lleol ac o ymgynghori'n ffurfiol gyda'r ysgol gymuned. Ond mae'n gywir dweud bod y sefyllfa economaidd bresennol yn rhoddi pwysau ar awdurdodau lleol i wneud y defnydd mwyaf cost-effeithiol bosib o arian cyhoeddus. Hefyd y mae'n wir dweud bod cost-y-disgybl yn Aberdyfi ddwywaith yr hyn ydyw ym Mhenybryn, ac mae yma fater o degwch sylfaenol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cyflwynwyd y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi cyn cael sicrwydd amodol o grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn amodol ar gwblhau'r broses statudol bydd cyfanswm o £7.9m yn cael ei wario ar ddarparu ysgol ardal newydd ac uwchraddio tair ysgol. |
| 39. | Yn amau'r ffigyrau ar gyfer arbedion ariannol yn sgil cau / Nid yw'r rhesymeg ariannol yn dryloyw ac mae angen rhagor o eglurhad manylach ar y ffigyrau | 3 | Ar ôl gwneud lwfans ar gyfer y cynnydd mewn costau teithio bydd cau Ysgol Aberdyfi yn rhyddhau tua £57,000 o arian ychwanegol i Ysgol Penybryn a £57,000 arall i'r gyllideb addysg ganolog. Cyflwynwyd y ffigyrau hyn yn fanwl i'r Panel Adolygu'r Dalgylch ac maent ar gael ar wefan y Cyngor. |
| 40. | Mae gwerth tir tybiannol y safle a'r pris a geid ar y farchnad agored amdano yw'r prif gymhelliad y tu cefn i'r cau / Beth yw'r brif fantais i Gyngor Gwynedd o gau'r ysgol? Os mai'r ateb yw i ddiben codi tai – pwy fydd yn prynu'r rheini heb ysgol yno? Cais am ragor o wybodaeth am yr archwiliad eiddo | 1 | Cyflwynwyd y rhesymau y tu cefn i'r cynnig yn glir ym mhapurau'r Cyngor ac yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Ni wnaed 'run penderfyniad ar beth i'w wneud gyda safle'r ysgol petai'n cael ei chau. Mae'r broses o werthu/cael gwared â safleoedd ysgolion a gaewyd i'w gweld yn glir yn y polisi y cytunodd Bwrdd y Cyngor arno ym Medi 2009. |
| **41.** | **Dogfennau a Gynhwyswyd neu a Ddyfynnwyd** | | |
| 42. | Cynhwyswyd llyfryn y 'National Association for Small Schools' – a ydyw'r holl gorff hwn o ymchwil wedi'i ddiystyru? | 1 | Cyflwynodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Bach dystiolaeth i weithgor Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2009 cyn drafftio'r strategaeth *Addysg Ardderchog i Blant Gwynedd*. Felly mae tystiolaeth y Gymdeithas wedi cael sylw yn y broses o lunio'r strategaeth wreiddiol ac o ystyried honno wedyn. |
| 43. | Ymateb cyfun yn cynnwys cyfeiriad at a rhannau wedi'u codi o:<br>Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru – mae'r cynllun i gau Ysgol Aberdyfi yn tynnu'n groes i'r cynllun hwn<br>Gwynedd Ynghyd 2008-12 | 1 | Derbyniwyd bod cau ysgolion yn gallu taro cymunedau lleol mewn modd negyddol yn y dystiolaeth honno oedd yn yr Asesiadau Ardrawiad Cymunedol a baratowyd gan Gyngor Gwynedd mewn rhannau o Feirionnydd. Yn achos Aberdyfi canfu'r asesiad na fuasai cau'r ysgol yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2007-13<br>Strategaeth Adfywio Gwynedd 2007-13<br>Polisïau Parc Cenedlaethol Eryri<br><br>Sylwadau'n cyffwrdd yn bennaf â phryderon na fydd cau Ysgol Aberdyfi yn cydymffurfio gyda'r dyheadau sydd yn y dogfennau hyn. | | cael effaith negyddol o bwys ar y pentref. Mae yn y pentref nifer dda o fusnesau amrywiol ac o ganolfannau diwylliannol er mai bychan yw'r ysgol. Ond hefyd rhaid cofio bod y Sefydliad Ysgol yn canolbwyntio'n gyntaf ar gael y canlyniadau gorau bosib i ddysgwyr, ac felly'r ysgogiad cryfaf y tu cefn i'r cynnig yw addysg, yn lleol ac ar draws y Sir. |
| **44.** | **Staffio** | | |
| 45. | Dylai staff Ysgol Aberdyfi gael cyfle gwirioneddol i geisio am swyddi yn yr ysgol ardal newydd | 1 | Mae staffio yn fater i gyrff llywodraethol ysgolion. Mae'r Cyngor wedi argymell y dylai corff llywodraethol yr ysgol ardal arfaethedig ym Mro Dysynni gadw swyddi yn yr ysgol i staff y pedair ysgol fyddai'n cyfuno, ac y dylid rhoi'r cynnig wedyn i staff eraill yn ardal Tywyn. |

**3.2 Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol ar y Cynnig i Gau Ysgol Aberdyfi yn Awst 2011**

Derbyniwyd 35 o ymatebion ysgrifenedig:
1 Dogfen Dwyieithog
33 Llythyrau yn Saesneg
1 E-bost yn Saesneg

Sylwadau'n cynnwys oddi wrth:
Lywodraethwyr a Pwyllgor Gweithredu Ysgol Aberdyfi, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Parchedig Lleol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru Seisnig Aberdyfi, Cadeirydd Pwyllgor Gweithredu Ysgol Aberdyfi a 30 llythyr

| **Cod Sylwadau** | **Sylwadau** | **Nifer o ymatebion ysgrifenedig oedd yn cynnwys y sylw** | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cymuned** | | |
| 1.1 | Yr ysgol yw calon y gymuned/ Byddai cau yr ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol/Ni ddylid trin cau'r ysgol fel mater addysgol yn unig – ceir goblygiadau i'r gymuned/Byddai'r pentref yn dod yn llai atyniadol i deuluoedd ifanc/ Mae ysgol yn denu teuluoedd ifanc/Pwysig y caiff plant eu haddysgu yn eu cymuned/Dylai plant gael cyfle i fynychu eu hysgol leol | 26 | Byddai disgyblion Ysgol Aberdyfi yn trosglwyddo i ysgol fwy a gwell yn Tywyn. Caiff Ysgol Penybryn ei hannog i ddatblygu ymhellach fel ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn fan canolog ar gyfer cymuned ehangach Tywyn/Aberdyfi.<br><br>Mae dros 35% o drigolion Aberdyfi sy'n blant oedran cynradd eisoes yn mynychu ysgolion heblaw Aberdyfi, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn dewis mynychu Ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Penybryn, Tywyn.<br><br>Mae bron i hanner disgyblion oed cynradd sy'n byw yn Aberdyfi eisoes yn derbyn eu haddysg yn Tywyn. Mae'r mwyafrif llethol o blant yn Aberdyfi yn mynychu Ysgol Uwchradd Tywyn ar ôl eu penblwydd yn 11oed.<br><br>Derbynnir ceir pryderon y gall cau ysgol gael effaith negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd angen i Ysgol Penybryn ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau â'r cymunedau y bydd yn eu gwasanaethu os derbynnir y cynnig hwn.<br>Nid yw'r gymuned ehangach yn gwneud fawr o ddefnydd o'r ysgol gan bod Aberdyfi yn cael ei gwasanaethu'n dda gan amrywiaeth o adeiladau cyhoeddus.<br><br>Tra gall ysgol wneud cyfraniad sylweddol i fywyd cymuned, ei ddiben pennaf ddylai darparu'r addysg orau bosibl ar gyfer ei disgyblion. Er hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth. Dosbarthwyd yr adroddiad i randdeiliaid. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o fesurau y gellid eu cymryd i liniaru'r effeithiau negyddol y teimlir y byddai cau ysgolion yn eu cael. |
| 1.2 | Mae ysgol yn rhan egnïol o'r gymuned; mae disgybllion yn cyfrannu tuag at ddigwyddiadau yn y gymuned ac mae pob disgybl yn cyfrannu/ Byddai plant yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned ac ar ôl ysgol; | 12 | Ceir enghreifftiau niferus o arfer dda mewn ardaloedd oedd yn wynebu ad-drefnu ysgolion yn ystod y 1960s ac maent wedi cadw cysylltiadau cryf â'r holl gymunedau oedd yn rhan o hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | clwb brecwast ysgol; byddant yn colli diddordeb yn y gymuned. | | |
| 1.3 | Mae gan gymunedau gwledig fynediad i lai o gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus na threfi/ Mae gorchwyl y cyngor o ddarparu mannau ar gyfer etholwyr gyda gwasanaethau hanfodol ac ysgolion lleol yn wasanaeth hanfodol/ Adeiladau ysgol yn adnodd defnyddiol i'r pentref ac yn cael eu defnyddio gan glybiau a grwpiau | 2 | Tra gall bod hyn fod yn wir, caiff Aberdyfi ei gwasanaethu'n dda gan ystod o adeiladau cyhoeddus yn cynnwys canolfan gymuned, theatr, swyddfa bost a nifer o siopau, bwytai a thafarndai, banciau gyda ATMs, cyfleusterau chwarae a chwaraeon, canolfan wybodaeth ar gyfer twristiaid a gorsaf reilffordd. |
| 1.4 | Delio â phroblemau tai gan bod llawer yn gartrefi gwyliau ar hyn o bryd, byddai hynny yn annog teuluoedd ifanc i'r ardal/ Byddai cau'r ysgol yn gwneud Aberdyfi yn gyrchfan i dwristiaid ddod ar eu gwyliau'n unig/Cynyddu'r ganran o gartrefi gwyliau/Prisiau Tai'n codi | 9 | Ceir tystiolaeth bod hynny eisoes yn digwydd. Mae Aberdyfi yn bentref sylweddol gyda sawl busnes eto oddeutu 40 o ddisgyblion oedran cynradd, gyda cyfran mawr ohonynt yn cael ei haddysgu tu allan i'r pentref. |
| 1.5 | Beth fydd yn digwydd i'r safle os bydd yr ysgol yn cau? / Canllawiau gan y Parc Cenedlaethol yn debygol o gyfyngu'r defnydd o'r safle ar ôl cau | 5 | Mae gan y Cyngor bolisi ar ddefnydd o safleoedd ysgol ar ôl cau, a dderbyniwyd gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. Yn y bôn, bydd gan y gymuned tua 6 mis ar ôl cau'r ysgol i baratoi achos o blaid defnyddio'r ysgol. Mae'r Cyngor yn neilltuo'r hawl i ryddhau'r adeilad a'r cyfraddau ffafriol i'r gymuned pe bai'r ddadl o blaid yn un gadarn. Bydd y swyddog adfywio lleol ar gael i gynghori'r gymuned. |
| **2** | **Lles ac Ymddygiad Plant** | | |
| 2.1 | Mae plentyn gyda chyflwr meddygol yn derbyn llawer o ofal a sylw ar hyn o bryd; mae'r athrawon yn ei drin. A oes gweithdrefnau i sicrhau y rhoddir yr un sylw a gofal unigol i'r cyflwr yn Penybryn? | 2 | Mae angen i athrawon allu ymateb i anghenion disgyblion dan eu gofal. Disgwylid i athrawon yn Penybryn dderbyn y wybodaeth a'r hyfforddiant perthnasol er mwyn gallu cefnogi unrhyw ofynion meddygol eu disgyblion. |
| 2.2 | Bod yn agos iawn i'r ysgol pe bai'r plentyn yn | 3 | Mae Tywyn 3 milltir o Aberdyfi. Mae'r ddwy gymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mynd yn wael na fyddai ar gael pe bai'r ysgol yn cau /Pan fo plentyn yn wael yn yr ysgol, a fyddai tacsi ar gael i riant fynd i'w nôl? | | wedi eu cysylltu â ffordd A o ansawdd dda, gwasanaeth trenau a gwasanaeth bws rheolaidd. |
| 2.3 | Plant yn drist iawn o golli eu hysgol a'u hathrawon, colli sefydlogrwydd o'u bywydau, plentyndod anhapus/byddai diwrnod y plant yn hywy gydag amser teithio/Bydd plant yn colli pob hunaniaeth/ | 6 | Derbynnir y gall newid gael effaith gythryblus. Caiff ysgolion eu hannog i sefydlu arferion gweithio ar y cyd, ymweliadau, cyd-rannu staff ac amrywiaeth o fesurau eraill ar y cyd yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at gau'r ysgol.<br>Byddai angen i blant sy'n trosglwyddo o Aberdyfi i Tywyn, deithio 3 milltir ychwanegol. |
| 2.4 | Disgyblion yn ymddwyn yn dda/Mater o fwlio yn cynyddu llawer mewn ysgol fwy | 2 | Disgwylir i bob ysgol sicrhau y caiff plant lonydd i ddysgu a datblygu heb gael eu bwlio. |
| **3** | **Addysg** | | |
| 3.1 | Safon ragorol o addysg yn Aberdyfi, ysgol yn ffynnu/Adroddiad diwethaf Estyn ddim yn feirniadol felly ni ellir cau'r ysgol oherwydd safonau addysgol gwael/""If it isn't broken don't fix it!" | 18 | Cafodd Ysgol Aberdyfi ei gosod o dan fesurau arbennig yn dilyn dau arolwg gan ESTYN yn 2005. Tynnwyd yr ysgol allan o fesurau arbennig yn 2008 a bellach rhydd addysg foddhaol. Cafodd Ysgol Penybryn, Tywyn, arolwg yn ddiweddar a chanfuwyd ei bod yn darparu addysg o safon uchel iawn. |
| 3.2 | Manteision meintiau dosbarth llai, anfanteision dosbarthiadau mwy Penybryn / Beth yw grwp sylweddol? Plant Aberdyfi eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grwp/Gormod o blant eisoes mewn dosbarthiadau yn Penybryn/ A fydd digon o le yn Penybryn/ Cwestiynau ynghylch meintiau dosbarth yn y pen draw – a fyddant dros y 25 a argymhellir? | 14 | Nod strategaeth y Cyngor *Addysg Ragorol ar gyfer Plant yng Ngwynedd* yw sicrhau dosbarthiadau o rhwng 12-25 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, mae dosbarthiadau yn Aberdyfi islaw'r trothwy o 12 disgybl, tra bod rhai dosbarthiadau yn Penybryn uwchlaw'r trothwy o 25 disgybl. Buasai'r cynig hwn yn rhyddhau cyllid refeniw ychwanegol sylweddol i Ysgol Penybryn a fyddai'n galluogi'r ysgol i gyflogi athrawon ychwanegol pe dymunai wneud hynny.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn rhyddhau cyllid ychwanegol i Ysgol Penybryn a fyddai yn ei galluogi i gyflogi mwy o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | athrawon – ac felly ostwng meintiau dosbarthiadau – pe dymunai wneud hynny. |
| 3.3 | Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r ddamcaniaeth bydd plant Aberdyfi yn derbyn gwell safon o addysg yn Penybryn, beth sydd mor arbennig ynghylch addysg yn Penybryn? | 6 | Mae aroygiadau ESTYN yn awgrymu y rhydd Ysgol Penybryn brofiad addysgol rhagorol. Tynnwyd Ysgol Aberdyfi allan o fesurau arbennig yn 2008. |
| 3.4 | Rhydd y grwp babanod lleol gyswllt da i'r ysgol / Byddai'n rhaid i 2 ysgol feithrin gau a byddai'r gost o ddod a hwy i Penybryn yn fwy nac a fyddai cadw'r meithrinfeydd presennol ar agor / A ellid cadw rhai elfennau o'r dosbarth meithrin yn Penybryn yn Aberdyfi? | 5 | Ni ddylai'r grwp babanod lleol gael ei effeithio gan y cynnig hwn gan y rhydd ddarpariaeth an-statudol. Nid y'w plant yn cael mynediad i'r ysgol ar hyn on bryd hyd y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. |
| 3.5 | Ceir cyfnod sylfaen yn ysgol Aberdyfi, ni cheir dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn | 10 | Fel rhan o'r ad-drefnu, cynigir y dylai Ysgol Penybryn agor dosbarth meithrin i roi mynediad i ddisgyblion 3 oed. |
| 3.6 | Mae ysgol fechan hefyd yn elwa trwy addysgu sgiliau cymdeithasol a mentora / Mae plant o 'allu isel' yn llawer mwy tebygol o lwyddo mewn amgylchfyd 'ysgol leol' / Rhieni dim â pherthynas ar lefel bersonol ag athrawon – nid yw athrawon Penybryn yn sefyll ger giât yr ysgol a sgwrsio â rhieni | 4 | Yn gyffredinol mae'r addysgu a'r mentora yn Ysgol Penybryn yn rhagorol fel y tystir mewn adroddiad arolwg diweddar gan ESTYN. |
| 3.7 | Plant yn elwa o ddosbrthiadau grwp oedran cymysg/Astudiaethau dosbarth grwp oedran cymysg niferus yn cael eu dyfynnu | 2 | Tra gall hyn fod yn wir, mae'r Cyngor yn teimlo bod dosbarthiadau rhy fach yn cyfyngu ar y cyfleoedd a gaiff plant i ryngweithio â'u cyfoedion. |
| 3.8 | Gostyngiad yn nifer disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf i ryw raddau oherwydd y newid mewn pennaeth/ Dewis gwael o ran recriwtio Pennaeth/Nid yw cael Pennaeth dros dro yn broblem, dengys profiad yn y gorffennol bod y pennaeth dros dro wedi cael gwell hwyl | 5 | Cafodd ysgolion yn ardal Tywyn anhawster i benodi penaethiaid. Pan ddechreuodd yr adolygiad yn 2009, roedd pedair o'r wyth ysgol yn y dalgylch dan ofal penaethiaid dros dro, tra cai dwy arall eu harwain gan atharwon oedd a'r hawl i ymddeol. Gofynnodd y Cyngor i ysgolion ystyried peidio â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arni na rhai penaethiaid blaenorol parhaol / Mae rhai rhieni wedi penderfynu mynd â'u plant i ysgolion eraill, ac mae hynny'n hawdd i'w egluro oherwydd yr ansicrwydd mae'r Cyngor wedi ei greu ynghylch parhad ysgol Aberdyfi / mae cyngor Gwynedd wedi gadael Aberdyfi i lawr yn ystod y blynyddoedd diweddar trwy beidio â chael pennaeth newydd, a arweiniodd at i rieni Aberdyfi symud eu plant i Pennal a Tywyn. | | phenodi penaethiaid parhaol yn ystod adolygiad blaenorol o drefniadaeth ysgolion a gynhaliwyd yn 2005-7 ond tynnwyd y cais hwnnw'n ôl yn dilyn gwrthod cynnig trwy'r sir i ad-drefnu ysgolion. |
| 3.9 | Dywedodd CG 75% o leoedd gwag sy'n wir o ddefnyddio'r fformwla, ond yn ei hanfod, mae gan yr ysgol 3 ystafell ddosbarth gydag uchafswm o 20 ymhob un (uchafswm 60) a rydd 67% o leoedd dros ben / Mae'n wir bod rhai plant yn nalgylch Aberdyfi catchment yn mynd i Tywyn ond dim ond 33% a dim "o leiaf 40%" fel y dyfynnir gan CG | 1 | Caiff nifer lleoedd mewn ysgolion, ac felly nifer lleoedd dros ben, eu cyfrifo gan ddefnyddio fformwla cydnabyddedig Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br>Mae cyfradd sylweddol o ddisgyblion cynradd sy'n byw yn Aberdyfi yn mynychu ysgolion a meithrinfeydd eraill heblaw Ysgol Aberdyfi – dros y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi amrywio o rhwng 33% i dros 40%. |
| **4** | **Ansawdd/Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol** | | |
| 4.1 | Mae'r adeilad mewn cyflwr rhagorol a cheir cyfleusterau priodol ynddo, yn cynnwys caeau chwarae, mannau cyfnod sylfaen, costau isel o ran cynnal a chadw/ mae adeilad ysgol / Penybryn mewn cyflwr gwaeth nac Aberdyfi / mae adeilad ysgol Aberdyfi yn fodern / Ceir peth gofod na ddefnyddir o fewn yr adeiladau ond mae hwn yn le ar gyfer twf/ mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn awgrymu bod angen gwario dros £100,000 ar adeilad ysgol Aberdyfi – pam gan ei fod mewn cyflwr rhagorol? | 14 | Mae'n ysgol gymharol newydd ac yn gyffredinol mewn cyflwr da. Fel rhan o gynnig llwyddiannus am gyllid cyfalaf wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Haf 2010, caiff Ysgol Penybryn ei hail-wampio er mwyn cwrdd â gofynion yr 21g. |
| 4.2 | Parcio diogel yn Aberdyfi, peryglus yn Tywyn | 6 | Bydd rhan o'r pecyn i uwchraddio Ysgol Penybryn yn cynnwys gwella mynediad i'r adeilad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Beth fydd yn digwydd i'r safle pe bai'r ysgol yn cau? / Canllawiau'r Parc Cenedlaethol yn debygol o gyfyngu'r defnydd o'r safle yn dilyn cau | 5 | Mae gan y Cyngor bolisi ar ddefnydd o safleoedd ysgol yn dilyn cau, a dderbyniwyd gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. Yn ei hanfod, bydd y gymuned yn cael tua 6 mis ar ôl i'r ysgol gael ei chau, i baratoi achos o blaid defnyddio'r ysgol. Deil y Cyngor a'r hawl i ryddhau'r adeilad a'r cyfraddau ffafriol i'r gymuned pe bai'r achos o blaid yn gadarn. Bydd y swyddog adfywio lleol ar gael i gynghori'r gymuned. |
| **5** | **Gwybodaeth/Ystadegau** | | |
| 5.1 | Gwybodaeth leol bod cyfraddau geni/rhagamcanestyniadau disgyblion yn codi / Pe bai'r proffil demograffig yn newid, sut gall Aberdyfi gael ei hysgol leol yn ôl ? / Byddai cysylltiadau ffyrdd a chludiant yn dylanwadu ar deuluoedd yn byw yn yr ardal ac sy'n cymudo i'w gwaith, gan arwain at fwy o blant yn yr ysgol / Mae'r swyddi sydd ar gael yn effeithio ar faint sy'n byw mewn tai lleol a fyddai'n cynyddu rhifau yn yr ysgol. | 8 | Efallai bod gwirionedd yn hyn er nad oes tystiolaeth eglur i gefnogi'r honiad. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir bod llai na 40 o ddisgyblion oedran cynradd yn byw yn nalgylch Aberdyfi ac o'r rheini mae dros draean yn dewis mynychu ysgolion heblaw Aberdyfi. |
| 5.2 | Mae Dyffryn Dyfi Valley yn arbennig ac mae Aberdyfi yn rhan o 'Warchodfa Biosffer UNESCO' – sut mae cau'r ysgol o gymorth i ddatblygu economi leol mwy hunan-ddibynnol, yn ardal fwy cynaladwy a bodloni dynodiad biosffer Uneso a gwneud yr ardal yn lle i fyw, gweithio a magu plant? | 1 | Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar drosglwyddo addysg gynradd o'r ansawdd uchaf. Mae ymwybyddiaeth o leolaid yn gydran allweoddol o unrhyw ddarpariaeth cwricwlaidd. Ar hyn o bryd, mae pentref Aberdyfi yn bentref sy'n ffynnu er gwaethaf y nifer isel o blant sy'n mynychu'r ysgol gynradd. |
| **6** | **Cyllid** | | |
| 6.1 | Yr unig ffactor sy'n gyrru'r cynnig yw'r angen i arbed arian; rhoddir gormod o bwyslais ar arbed arian / Arian yn cael ei arbed oherwydd cau – amau'r ffigurau/ Rhesymwaith ariannol o fewn y | 4 | Nid yw hyn yn wir, fel mae'r gwahanol ddogfennau a gyhoeddwyd yn ystod y broses o drafod â chymunedau lleol ac ymgynghori'n ffurfiol gyda chymuned yr ysgol wedi dangos. Mae fodd bynnag |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | papur ymgynghori statudol ddim yn eglur / Pam cau'r ysgol os nad am resymau gwleidyddol ac i gael arian o werthu'r safle | | yn wir bod y sefyllfa economaidd sydd ohoni yn gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau'r defnydd mwyaf cost-effeithiol o arian cyhoeddus. Mae hefyd yn wir bod gwariant berdyfi ar bob disgybl yn ddwbl gwariant Penybryn, ac mae tegwch sylfaenol yn berthnasol.<br><br>Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ar arbedion a ragwelir yn seiliedig ar yr un broses modelu ariannol cadarn sy'n nodi dyraniadau cyllideb cyfredol. |
| 6.2 | Byddai'n rhatach cadw dosbarth meithrin Penybryn yn Aberdyfi nac i adeiladu un newydd yn Tywyn / Os oes angen mwy o adnoddau ac athrawon yn Tywyn i ymdopi a'r plant ychwanegol, oni fyddai'n well ei wario ar gadw ysgol leol dda, a gedwir yn dda?/ Gellid bod wedi gwario'r swm mawr o arian a gafodd eu wario yn cyflawni gwaith cefndirol ar gyfer y prosiect cau ysgolion ar ysgolion cynradd lleol/Pam bod angen ysgol ardal newydd? Am swm llai, mae'n bur debyg y gellid datblygu Ysgol Bryncrug i gwrdd ag anghenion yr ardal gyfagos | 5 | Cafodd yr opsiwn o leoli dosbarth meithrin i fyny at ac yn cynnwys yr holl ddarpariaeth cyfnod sylfaen ar gyfer y ddwy gymuned ei ystyried yn ystod y broses adolygu dalgylch a gychwynnwyd gan lywodraethwr o Aberdyfi. Byddai'r cynnig yn gostus ac o'r herwydd fe'i gwrthodwyd. |
| 6.3 | A fydd Cyngor Gwynedd yn talu costau megis gwisgoedd ysgol newydd? | 1 | Ni fwriedir darparu gwisgoedd ysgol newydd heblaw trwy'r broses grant arferol ar gyfer teuluoedd sydd â hawl iddynt. |
| 6.4 | Yr unig waith fydd ar ôl fydd gwaith tymhorol/ ceir yn Aberdyfi gyfradd mawr o ail dai sy'n talu trethi llawn a gan nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau Cyngor Gwyenedd gydol y flwyddyn, mae'r refeniw lleol dros ben yn uwch na'r costau lleol. | 2 | Mae'r patrwm hwn yn wir am Aberdyfi ac ardaloedd eraill o fewn y dalgylch heddiw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7** | **Sgiliau Iaith** | | |
| 7.1 | Mae gan blant Aberdyfi sgiliau iaith Cymraeg cryf, byddai cau ysgol Aberdyfi school yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg yn yr ardal / Mae ysgolion llai yn rhoi gwell trochiad mewn a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. | 7 | Cynhaliwyd asesiad o effaith ar iaith fel rhan o'r broses adolygu. Canfuwyd bod disgyblion o'r ddwy gymuned yn dod o gefndiroedd ieithyddol tebyg iawn ac nai chai unrhyw effaith negyddol ei ragweld o'r defnydd o'r Gymraeg pe derbynnid y cynnig.<br><br>Gall hynny fod yn wir o ran ysgolion llai ond yw hynny'n wir o anghenraid. Mae'r asesiad o effaith iaith yn awgrymu bod y ddwy ysgol yn llwyddo i ddatblygu sgiliau eu disgyblion yn y Gymraeg. |
| **8** | **Cludiant** | | |
| 8.1 | Ni ddylid anfon plant i'r ysgol ar fws/ Pryderon ynghylch diogelwch: dylid sicrhau bod gwarcheidwaid ar fysiau sy'n cludo plant ifanc iawn i'r ysgol / nid yw polisi Cyngor Gwynedd yn darparu gwarcheidwaid, camymddwyn ar rai bysiau | 12 | Derbynnir y gall bydd rhieni'n betrus ynghylch plant ifanc yn teithio ar fws heb warcheidwad. Fodd bynnag, polisi Gwynedd yw na ddarperir gwarcheidwaid, er bod wrth gwrs, gyrrwyr yn derbyn hyfforddiant ac yn derbyn archwiliadau CRB. |
| 8.2 | Y ffordd i Dywyn yn beryglus | 3 | Mae'r ffordd o Aberdyfi i Tywyn o ansawdd da, yn llydan ac yn syth yn gyffredinol. |
| 8.3 | Bydd pris cynyddol tanwydd yn gostwng arbedion / Costau ychwa egol cludo plant/A fydd Cyngor Gwynedd yn talu am gludiant i unrhyw ysgol arall heblaw Penybryn? | 3 | Os deil prisiau tanwydd i godi, bydd cynnydd hefyd ym mhris gwresogi a goleuo adeilad presennol Ysgol Aberdyfi.<br>Darperir cludiant yn unol â pholisi cludiant y Cyngor o'r cartref i'r ysgol |
| 8.4 | Mae plant yn cerdded i'r ysgol yn cyfrannu tuag at amgylchfyd mwy diogel ac mae'r ymarfer corff yn llesol iddynt/olion traed Carbon. | 5 | Derbynnir y bydd mwy o ddisgyblion oedran cynradd yn teithio'n ddyddiol o Aberdyfi pe derbynnid y cynnig hwn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae dros 30% o'r disgyblion oedran cynradd sy'n byw yn Aberdyfi yn mynychu ysgolion tu allan i Aberdyfi, gyda'r mwyafrif yn mynychu Penybryn Tywyn. Pe cai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hyn ei weithredu, byddai'r cynnig hwn yn arwain at ddarparu cludiant o Aberdyfi i Tywyn ar gyfer disgyblion oedran cynradd a ddylai ostwng trafnidiaeth ysgol presennol. Pe bai Ysgol Aberdyfi yn cau, gwneid arbedion ar gynnal a chadw, goleuo a gwresogi'r adeilad a fyddai ynddo'i hun yn gostwng ôl-traed carbon. |
| **9** | **Proses Statudol** | | |
| 9.1 | Mae'r ddogfen statudol yn cynnwys gwallau, gadal allan/ Nid yw'r papur statudol yn delio ag Aberdyfi ac mae'n ymwneud yn gyfangwbl â Penybryn, dylid dileu'r broses i gael adolygiad barnwrol/ Nid oedd unrhyw gyfarfod na dogfen yn cynnwys gwybodaeth fanwl, a sail iddo ynghylch arbedion ariannol/ Dengys papur ymgynghorol y bydd gwelliannau i Tywyn yn cael eu hariannu trwy gau Aberdyfi, dylai hwn fod yn rhan o ymgynghoriad Tywyn/ni dderbyniodd Aberdyfi bapur ymgynghorol perthnasol | 3 | Cafodd y papur ymgynghorol statudol ei ryddhau i bob ysgol yn amodol ar ymgynghoriad statudol ar 24 Mai 2010. Roedd y papur ar Aberdyfi yn cynnwys rhywfaint o wallau, yn cynnwys disgrifiad gwallus oedd yn nodi y ceid nifer sylweddol o leoedd gwag dros ben mewn ysgolion oedd a rhifau o 25% neu 30, yn hytrach na'r rhifau cywir o 25% a 30 mewn rhif. Cafodd y gwallau hyn eu cywiro a pharatowyd a dosbarthwyd taflen gwelliannau mewn copi caled i bawb yr yngynghorwyd â hwy ar 13 Gorffennaf 2010, a trwy ddulliau electronig ble roedd cyfeiriadau e-bost ar gael. Hefyd gosowdyd y daflen gwelliant ar wefan y Cyngor ynghyd â'r ddogfen ymgynghorol wreiddiol. Gadawyd copïau dros ben yn yr ysgol, ac anfonwyd copïau eraill ar gais yr ysgolion. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am bythefnos arall o 30 Gorffennaf i 13 Awst 2010 i ganiatau ar gyfer dosbarthu'r papur gwelliant a phapur ychwanegol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch lleoliadau oedd dan ystyriaeth fel safleoedd ar gyfer yr ysgol ardal newydd arfaethedig.<br><br>Mae'r papur ymgynghorol statudol ar gyfer Aberdyfi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn delio ag Ysgol Aberdyfi. Yn amlwg, mae hefyd angen iddo amlinellu'r darpariaeth arall y dylid ei wneud ar gyfer addysg disgyblion oed cynradd sy'n byw yn Aberdyfi, pe bai'r ysgol yn cau. |
| 9.2 | Mae'r broses statudol yn wallus – roedd pleidleisiau yn seiliedig ar seiliau gwleidyddol yn unig, dylai pob ysgol fod yn fater ar wahân ac nid yn un bleidlais ar y 3 mater ar yr un pryd / Mae'r polisi sydd tu ôl i'r penderfyniad yn gyfeiliornus/Mae'r dadleion dros gau'r ysgol yn wallus | 5 | Gwnaed y cynigion i gau Ysgol Aberdyfi, ynghyd a chynigion eraill ar gyfer ardal Tywyn, yn dilyn trafodaethau helaeth gyda'r gymuned leol. Yna, derbyniwyd y cybnigion fel sail ar gyfer ymgynghoriad statudol gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2009.<br><br>Cafodd y polisi *Addysg Rhagorol ar gyfer pob plentyn yng Ngwynedd* ei dderbyn yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor llawn yn Ebrill 2009. |
| 9.3 | Dylid bod wedi sefydlu ysgol cyn cau unrhyw ysgol/ Rhagdybiaeth bydd plant Aberdyfi yn teithio i Penybryn – ble'r aeth dewis rhieni? / Byddai ysgol newydd yn rhoi dewis i rieni/Mater amseru – dim amser i gynllunio unrhyw benderfyniadau naill gan yr ysgol na rhieni gan y gallai Gweinidog dros Addysg yn y Cynulliad gyhoeddi penderfyniad mor hwy a Haf 2011; dod a chau Aberdyfi yn unol â'r bwriad i gau 4 ysgol arall; pam y caniateir i'r ysgolion bychain eraill aros ar agor nes caiff yr ysgol aradl arall ei hadeiladu ond bod rhaid i Aberdyfi gau? Dylai Aberdyfi gael cyfle i aros ar agor a rhoi'r dewis i rieni anfon plant i'r ysgol ardal newydd a rhoi cyfle teg i staff o ran swyddi. | 3 | Mae gan rieni hawl i anfon eu plant i unrhyw ysgol. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor ddarparu cludiant di-dâl i'r ysgol ardal dalgylch lleol ble mae anghenion y plentyn unigol yn cwrdd â pholisi cludiant y Cyngor (h.y. bod y plentyn yn byw dros 2 filltir o'r ysgol ac yn mynychu ei ysgol ddalgylch, neu ysgol agosaf). Bydd y polisi hwn yn parhau.<br><br>Mae'r cynnig i gau ysgolion yn Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril yn ddibynnol ar adeiladu ysgol ardal newydd. Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi a darparu lleoedd ar gyfer disgyblion Aberdyfi yn Ysgol Penybryn yn ddibynnol ar waith adeiladu sylweddol. Nid oes felly reswm na ellid gweithredu'r cynnig sy'n berthnasol i Aberdyfi ynghynt na'r cynnig i greu ysgol ardal yn Dysynni. |
| 9.4 | Nodwyd nad oedd ysgolion eraill eisiau cydweithio ag Aberdyfi pan mae cadarnhad | 3 | Yn ystod cyfarfodydd anffurfiol a gynhaliwyd yn Ysgol Pennal, nodwyd bod cynrychiolwyr ysgol o blaid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgrifenedig gan lywodraethwr ysgol Pennal nad yw hyn yn wir, cofnodion nad ydynt yn gywir wedi eu cymryd yn ystod o leiaf un cyfarfod ysgol/Llythyr oddi wrth Lywodraethwyr Ysgol Pennal yn gynwysedig /<br>Llythyr oddi wrth riant ynghylch cydweithredu rhwng Aberdyfi a Pennal yn gynwysedig | | sefydlu model o gydweithrediad ffurfiol gyda Ysgol Dyffryn Dulas, Corris, ac nad oeddent o blaid sefydlu model cydweithredol ag Aberdyfi. Fodd bynnag, nid yw hwn ond yn un o blith llawer o ffactorau sydd wedi arwain at y cynnig y dylai Ysgol Aberdyfi gau, yn cynnwys maint bychan yr ysgol a grwpiau dysgu, profiadau disgyblion, y nifer mawr o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill, gwariant fesul disgybl. |
| 9.5 | Yn ystod y cyfnod ymgynghorol, ni soniwyd y byddai pob plentyn 3 oed yn mynychu Penybryn | 1 | Roedd y cynnig i agor dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn yn rhan o'r papurau ymgynghorol, a darparwyd copïau o'r papurau ymgynghorol statudol ar gyfer Ysgol Penybryn i Ysgol Aberdyfi. |
| 9.6 | Penderfynwyd cau ysgol Aberdyfi, beth bynnag a ddywedwyd. | 1 | Nid yw'r Cyngor eto wedi pleidleisio ar y cynnig i gau'r ysgol. Nes gwneir hynny, ni wnaed penderfyniad. |
| 9.7 | Llythyrau blaenorol a anfownyd yn lleisio pryderon, a oes rhywun yn eu darllen neu a yw Cyngor Gwynedd yn anwybyddu llawer o resymau dros gadw ein hysgol ar agor? Teimlo nad oedd neb yn adran addysg Gwynedd wedi gwrando | 1 | Cafodd pob llythyr ei gydnabod a'i gyhoeddi mewn pecyn at sylw Cynghorwyr. Caiff atebion i sylwadau a godwyd yn yr ohebiaeth eu cynnwys yma. |
| 9.8 | Angen i'r Cyngor roi mwy o bwyslais i ddangos effaith cau ar les cyffredinol a ffyniant economaidd y pentref yn y dyfodol / Cynnal Arolwg o ' Asesiad Annibynnol ar Effaith ar y Gymuned' a gynhaliwyd yn dilyn cynnal yr asesiad cychwynnol/ Ni chynhaliwyd asesiadau o'r effaith economaidd a chymdeithasol/ Mae'r rhestr o anawsterau a awgrymwyd gan CG yn hollol annigonol, mae'n hepgor perthynas yr ysgol â'r gymuned a'r effaith a gaiff cau'r ysgol ar y gymuned/ Roedd y sesiwn a gynhaliwyd ar gyfer | 4 | Roedd datblygu cynigion ar gyfer ardal Tywyn yn dilyn cyfnod maith o drafodaaethau'n lleol. Pan wnaed y cyhoeddiadau ynghylch y cynigion ar gyfer ardal Tywyn ym Medi 2009, roedd y cylchlythyr perthnasol yn dal yn Cylchlythyr 23/02. Yn ystod y mis hwnnw, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau diwygiedig yng Nghylchlythyr 021/2009 ble roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau effaith ar iaith a chymuned ar gynigion y daethpwyd a hwy ymlaen o Ionawr 2010. Cynhaliodd Cyngor Gwynedd yr asesiadau hyn gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | plant a phobl ifanc y dalgylch wedi ei ogwyddo o ran sut y cafodd ei drefnu a'i asesu / Ni chafodd yr ysgol, rhieni a'r plant ddewis o ran eu dyfodol. | | gymryd ystyriaeth llawn o'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Cafodd yr asesiadau eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cydrannu ag aelodau etholedig, ysgolion ac eraill. |
| 9.9 | Ni soniwyd yn ystod y broses y byddai ar ysgol Penybryn angen cyllid ychwanegol fel ei fod yn addas ar gyfer y pwrpas, beth sy'n digwydd os nad yw'r arian ar gael? A fydd yr ysgol yn cael ei hystyried yn anaddas? | 2 | Mae Ysgol Penybryn yn addas ar gyfer pwrpas. Fodd bynnag, cyflwynwyd cynnig i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Haf 2010 ar gyfer cyllid oedd yn cynnwys cynnig i uwchraddio Ysgol Penybryn. Bu'r cais yn llwyddiannus. |
| **10** | **Ysgolion Eraill** | | |
| 10.1 | A roddwyd ystyriaeth y gellid defnyddio ysgol Aberdyfi ar y cyd ag ysgol gynradd Tywyn/ Rhoi cyfle i ysgol Aberdyfi gydweithredu ag ysgolion eraill megis Pennal / Dim yn rhy hwyr i sefydlu system ffederal – ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r dewis hwn. | 6 | Cafodd nifer o gynigion eraill eu hystyried yn ystod y broses adolygu, yn cynnwys sefydlu ysgol ffederal rhwng Aberdyfi and Penybryn, a sefydlu safle cyfnod sylfaen yn Aberdyfi a safle Cyfnod Allweddol 2 yn Penybryn. Yn y diwedd, penderfynodd y Cyngor llawn ei fod yn dymuno ymgynghori ynghylch y cynnig presennol hwn.<br><br>Cafodd sefydlu system ffederal i gynnwys Ysgol Aberdyfi ei ystyried yn ystod y broses adolygu. Oherwydd rhesymau a amlinellir ym mhapurau'r Cyngor, ni ddilynwyd y cynnig. |
| 10.2 | Pe bai ysgol Aberdyfi yn cau, bydd rhai rhieni yn anfon eu plant i Pennal, yn hytrach na Tywyn gan eu bod o'r farn na fyddai safon yr addysg yn Tywyn yn ddigon da/ / Ni fydd rhan fwyaf o rieni yn fodlon anfon eu plant i Penybryn felly ni ddylid cynnnwys unrhyw gyllideb ar gyfer plant Aberdyfi yng nghyllideb Penybryn / Dim yn wir y bydd cyllideb Penybryn yn cynyddu / Rhagamcanestyniad Dyraniad Cyllideb Ysgol | 3 | Rhydd Penybryn Tywyn brofiadau addysgol rhagorol fel y tystia arolwg diweddar gan ESTYN. Mae gan rieni hawl i ddewis pa ysgol bynnag y teimlant sydd fwyaf addas ar gyfer eu plentyn.<br><br>Mae'r costau yn seiliedig ar ddisgyblion cyfredol Aberdyfi yn trosglwyddo i Penybryn gan mai hwn fyddai'r ysgol ddalgylch ar gyfer Aberdyfi pe cai'r cynnig hwn ei weithredu. Cafodd y sail dros lunio'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Penybryn wedi ei gynnwys | | gyllideb a amcangyfrifwyd ei egluro yn y cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylchol a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn yr ysgol. Os yw'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer llai o ddisgyblion, bydd gostyngiad yn ei gyllideb. Os yw'n darparu ar gyfer rhagor, bydd ei gyllideb yn cynyddu. Cafodd costau cludiant ychwanegol eu cynnwys yn y costau a ddarparwyd ar gyfer y Panel Adolygu Dalgylchol, yr ysgol ac aelodau etholedig. |
| 10.3 | Tywyn yn cael crefnogaeth ar draul Aberdyfi / Gan nad yw Penybryn yn addas ar gyfer y diben, efallai y dylid ei chau a symud plant o Penybryn i'r holl ysgolion pentref bychan / Mae'n siwr bod y gost o symud un set o blant unffordd yr un fath o ran plant Aberdyfi a Tywyn? | 3 | Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar ddarparu'r profiadau addysgol gorau posibl i blant tra'n defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac yn effeithlon. Ar hyn o bryd, mae Aberdyfi yn derbyn ddwywaith cymaint o gyllid ar gyfer pob disgybl o'i gymharu ag Ysgol Penybryn.<br><br>Ceir tua 20 o ddisgyblion yn Aberdyfi, a dros 200 yn Tywyn. Byddai symud plant Aberdyfi i Tywyn yn golygu cael bws a dim estyniad sylweddol o Ysgol Penybryn. I symud 200 disgybl o Tywyn i Aberdyfi byddai angen darparu o leiaf 4 bws ac adeiladu ysgol newydd sbon yn Aberdyfi bedair gwaith ei maint bresennol. |
| **11** | **Economaidd** | | |
| 11.1 | Byddai'r arbedion economaidd yn arwain o'r cynnig yn fychan iawn, byddai llawer o bobl yn colli eu swyddi o ganlyniad i gau Ysgol Aberdyfi / Byddai cau yn lleihau natur hyfyw busnesau lleol ac yn effeithio potensial ar gyfer denu busnesau newydd/ mae llai o fusnesau a thrigolion parhaol yn golygu gostyngiad mewn cyfraddau busnes | 8 | Ar ôl cymryd cynnydd mewn costau teithio i ystyriaeth, byddai cau Ysgol Aberdyfi yn rhyddhau tua £57,000 mewn cyllid ychwanegol i Ysgol Penybryn a £57,000 pellach i'r gyllideb addysg ganolog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyngor, treth cyngor a mwy o bobl di-waith yn hawlio budd-dâl/Dim budd-daliadau ariannol nac addysgol/Nid yw cau yn gwneud unrhyw synnwyr econoamidd gan bod yr ysgol yn ffynnu ar hyn o bryd | | |
| 11.2 | Gwerth cydnabyddedig tir y safle a faint y gellid gael amdano ar y farchnad agored yw'r prif gymhelliad dros gau / Beth yw'r prif ffactor o ran beth fydd Cyngor Gwynedd yn ei ennill o gau'r ysgol? Os mai'r ateb yw adeiladu tai, yna pwy fydd yn eu prynu heb unrhyw ysgol? | 4 | Cafodd y rhesymau am y cynnig eu hamlinellu'n eglur ym mhapurau'r Cyngor ac yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Ni wnaed penderfyniad ynghylch y defnydd o safle'r ysgol pe bai'r ysgol yn cau. Caiff y broses o gael gwared o safleoedd ysgolion sydd wedi cau eu hamlinellu'n eglur mewn polisi y cytunwyd arni gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. |
| 11.3 | Buasai'n rhaid i staff yr ysgol gael gwaith yn rhywle arall/ Datgan y byddai angen mwy o staff yn Penybryn ym amheus gyda gostyngiad mewn arian a pob un o'r plant o Aberdyfi dim yn mynd i Penybryn, gan hefyd olygu llai o arian. | 2 | Mae cyllid yn ddibynnol ar ddisgyblion, felly bydd unrhyw gynnydd o ran cyllid ar gyfer Ysgol Penybryn neu unrhyw ysgol arall yn dibynnu ar nifer y disgyblion sy'n mynychu. Mae'r cynnig yn darparu ar gyfer plant sy'n drigolion Aberdyfi sy'n mynychu Ysgol Penybryn, ac felly mae'r gyllideb a gaiff ei hamcangyfrif yn dilyn gweithrediad, yn rhagdybio y bydd disgyblion cynradd sy'n trigo yn Aberdyfi yn mynychu eu hysgol ardal ddalgylch newydd yn Tywyn. |
| 11.5 | Cofrestru tir/Perchnogaeth yn cael ei gwestiynu/ Cofrestriad y safle'n wallus / Llythyr oddi wrth Seimon Williams at gadeirydd y llywodraethwyr dyddiedig 06/07/10 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch perchnogaeth y safle/ Pam cafodd tir ei gofrestru ym Mai 2010? / Pan ddigwyddodd hynny, ni gofrestrodd y Cyngor drosglwyddiad rhwng Richard Price Morgan a John Edward Jones, sydd yn berthnasol i'r tir sydd yn ofyn | 3 | Mae'r Cyngor yn y broses o gofrestru'r holl dir sydd yn eu meddiant yn wirfoddol ac maent wedi gwneud hynny ers sawl blwyddyn. Cyd-ddigwyddiad ydyw mai dim ond yn ddiweddar y cafodd yr ysgol hon ei chofrestru. Mae'r Cyngor yn cofrestru ei dir yn unol â'r mannau a brynwyd a'r hyn sy'n gyfleus i'w gofrestru ar y cyd trwy diroedd cyfagos. Nid yw'r Cyngor yn cofrestru ei holl dir gyda Theitlau unigol. Mae'r Gofrestrfa Dir wedi gwneud un camgymeriad o ran y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfreithiol. | | maes parcio trwy dim ond cynnwys hanner ohono. Caiff hynny ei gywiro maes o law. |
| **12** | **Dogfennau a Gafodd eu Cynnwys neu eu Dyfynnu** | | |
| 12.1 | Llyfryn 'Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bychain' wedi ei gynnwys – a gafodd yr holl ymchwil hwn ei anwybyddu? | 1 | Cyflwynodd Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bychain dystiolaeth i weithgor Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2009 cyn paratoi fersiwn drafft o'r strategaeth *Addysg Ragorol ar gyfer Plant yng Ngwynedd*. Felly, cafodd tystiolaeth y Gymdeithas ei hystyried wrth lunio'r strategaeth wreiddiol ac mewn ystyriaethau dilynol. |
| 12.2 | Ymateb cyfansawdd yn cynnwys cyfeiriad at ac adrannau o<br>- Cynnwys 'Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru' – cynllun i gau Ysgol Aberdyfi yn mynd yn groes i'r cynllun hwn<br>- Gwynedd Gyda'n Gilydd 2008-12<br>- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13<br>- Strategaeth Adfywio Gwynedd 2007-13<br>- Polisïau Parc Cenedlaethol Eryri<br><br>Roedd sylwadau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar bryderon nad oedd cau Ysgol Aberdyfi yn cwrdd â'r dyheadau a amlinellir yn y dogfennau hyn. | 1 | Derbyniwyd y gall cau ysgolion gael effaith negyddol ar gymunedau lleol fel mae'r Asesiadau Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd mewn gwahanol rannau o Feirionnydd, yn tystio. Yn achos Aberdyfi, canfu'r asesiad na fyddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol sylweddol ar y pentref. Ar hyn o bryd, caiff y pentref ei wasanaethu'n dda gan ystod o fusnesau a chanolfannau diwylliannol er gwaethaf maint bychan ei hysgol. v Dylid hefyd nodi bod Trefniadaeth Ysgol yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer dysgwyr, ac felly addysg leol ac ar draws y Sir sy'n ysgogi'r cynnig yn bennaf. |
| 12.7 | Ni chafodd astudiaeth effaith ar iaith a'r gymuned a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd a ddyfynnir ac y sonnir amdani, ei chynnwys mewn unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Mehefin 2009 a Hydref 2009 | 4 | O dan gylchlythyr blaenorol 23/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru, ni ddisgwylid i awdurdodau gynnal asesiadau effaith ar iaith a chymuned. Roedd cylchlythyr newydd, diwygiedig – 021/2009 – a gafodd ei gyhoeddi ym Medi 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau effaith ar iaith a'r gymuned o gynigion i ad-drefnu ysgolion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gwnaed y gwaith hwn gan ymgynghorydd annibynnol yn ystod Chwefror-Ebrill 2010. |

**ATODIAD 4**
**DADANSODDIAD SESIYNAU CASGLU BARN DISGYBLION**

Ceisiwyd cael barn y disgyblion yn ystod yr ymgynghori. Rhoddwyd y dewis i'r ysgol un ai lenwi holiadur arbennig oedd wedi ei lunio gan hwylusydd plant a phobl ifanc, neu drwy sesiwn efo hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc. Penderfynodd yr ysgol defnyddio'r ymateb gafodd ei gyflwyno yn ystod yr ymgynghoriad yn Haf 2010.

Holwyd y cwestiynau canlynol. Eglurwyd wrth y plant fod newid yn gallu digwydd a gofynnwyd eu barn ar hynny.

- Sut ydych yn teimlo am hyn?
- A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn?
- Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?
- Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?

| **Ysgol Aberdyfi** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 0<br>1<br>16 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Fyddwn ni ddim yn siarad cymaint o Gymraeg<br>Ni fydd yn bosib i ni gerdded i'r ysgol<br>Mae cinio Mrs Jones yn dda, fydd hi ddim yn gwneud cinio i ni<br>Mae ein ysgol yn llwyddiannus mewn cystadlaethau – fydd hyn yn newid?<br>Fydd neb eisiau byw yn Aberdyfi os na fydd ysgol yma. | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Dim yn edrych ymlaen<br>Rhan fwyaf o'r plant yn dweud nad oeddent yn edrych ymlaen a bod eu hysgol nhw yn arbennig ("special") | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Athrawon clên a theg<br>Gweld ffrindiau<br>Cael siarad Cymraeg<br>Pawb yn cael cymeryd rhan mewn gweithgareddau | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn yr ysgol. | |